Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)

## Memorandwm Esboniadol

yn cynnwys
yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol
a'r Nodiadau Esboniadol

**Gorffennaf 2019**

# Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)

## Memorandwm Esboniadol i'r Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi'i baratoi gan Adran yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru ac mae wedi'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i, byddai darpariaethau Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru), a gyflwynais ar 8 Gorffennaf 2019, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Lesley Griffiths AC**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Aelod y Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil

18 Gorffennaf 2019

## Cynnwys
## Tudalen

**1 – MEMORANDWM ESBONIADOL**


1. Disgrifiad
2. Cymhwysedd Deddfwriaethol
3. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael
4. Ymgynghori
5. Pŵer i lunio is-ddeddfwriaeth


**2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**


6. Crynodeb o’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol
7. Opsiynau
8. Costau a Manteision
9. Asesiadau Effaith
10. Adolygiad ôl-weithredu

**ATODIAD 1 – Nodiadau Esboniadol**
**ATODIAD 2 – Mynegai Rheolau Sefydlog**
**ATODIAD 3 – Rhestr o Welliannau**

# 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) yn ei gwneud yn drosedd defnyddio anifail gwyllt mewn syrcas deithiol. Bydd anifail gwyllt wedi'i ddefnyddio os bydd yr anifail hwnnw'n perfformio neu'n cael ei arddangos. Ni fydd y Bil yn effeithio ar ddefnyddio anifeiliaid domestig mewn syrcasau ac ni fydd yn rhwystro pobl rhag defnyddio anifeiliaid gwyllt fel adloniant mewn sefyllfaoedd eraill.

## 2. Cymhwysedd Deddfwriaethol

2.1 Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (“y Cynulliad”) y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau yn y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) (“y Bil”) yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (“Deddf 2006”) fel y’i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017.

2.2 Yn sgil gweithredu Deddf Cymru 2017, mae’r pŵer gan Weinidogion Cymru i weithredu ar sail foesegol a chyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i wahardd y defnydd o anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru.

## 3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

### Cyflwyniad

3.1 Yr amcan polisi yw gwahardd y defnydd o anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru.

### Y cyd-destun

3.2 Mae defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn ennyn teimladau cryfion a diddordeb brwd y cyhoedd a gwleidyddion fel ei gilydd.

3.3 Mae nifer y syrcasau teithiol sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt a nifer yr anifeiliaid gwyllt yn y syrcasau hynny wedi gostwng yn aruthrol yn y blynyddoedd diwethaf. Yn ôl Animal Defenders International, ym 1997, roedd 124 o anifeiliaid 'egsotig' yn teithio gyda syrcasau'r DU, gan gynnwys rheino, 16 eliffant, 15 llew ac 16 teigr[1] mewn 20 syrcas[2]. Yn ôl Asesiad Effaith Defra yn 2012, roedd 40 o anifeiliaid gwyllt mewn tair syrcas deithiol yn y DU.[3] Dim ond dwy syrcas sydd bellach yn teithio gydag anifeiliaid gwyllt; Circus Mondao a Syrcas Peter Jolly. Mae'r ddwy â'u pencadlysoedd yn Lloegr ond yn ymweld â Chymru'n rheolaidd; ymwelodd y ddwy syrcas â Chymru yn 2018, ac mae Circus Mondao yn teithio Cymru eleni (2019). Maen nhw wedi eu trwyddedu dan Reoliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Lloegr) 2012.[4]

3.4 Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i berchenogion syrcasau teithiol yn Lloegr sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt fodloni nifer o amodau sy'n ymwneud â lles anifeiliaid a chadw cofnodion.

3.5 Yn ôl Adolygiad gan Defra o'r Rheoliadau ar ôl eu Gweithredu, bu gan y ddwy syrcas gyfanswm o rhwng 16 a 28 o anifeiliaid gwyllt ar adegau gwahanol ers i'r Rheoliadau ddod i rym yn 2013.[5] Yn eu plith yr oedd sebra, camel, zebu (math o wartheg), carw Llychlyn, racŵn, cadno a macaw, yn ogystal â rhywogaethau domestig.

3.6 Daw'r Rheoliadau yn Lloegr i ben ar 19 Ionawr 2020. Nid yw Llywodraeth y DU am adnewyddu'r Rheoliadau ac mae am wneud yn

---

[1] Animal Defenders International (2006). *Animals in Travelling Circuses: The Science on Suffering* <http://www.stopcircussuffering.com/wp-content/uploads/2014/08/UK-Science-on-Suffering-low_020311.pdf>
[2] Animal Defenders International (2004). *Animal Circuses and the Animal Welfare Bill* <http://www.stopcircussuffering.com/wp-content/uploads/2014/08/circusesawblowres.pdf>
[3] Defra, End the use of wild animals in travelling circuses, Impact Assessment (2012) <http://www.legislation.gov.uk/ukia/2012/41/pdfs/ukia_20120041_en.pdf>
[4] The Welfare of Wild Animals in Travelling Circuses (England) Regulations 2012 <https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2012/9780111527832/contents>
[5] Defra, Rheoliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Lloegr) 2012: Adolygiad ôl-weithredu 2018, Ionawr 2018 <https://www.gov.uk/government/publications/the-welfare-of-wild-animals-in-travelling-circuses-england-regulations-2012-post-implementation-review>

siŵr bod deddfwriaeth yn ei lle i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau erbyn y dyddiad y dônt i ben.

3.7 Ar hyn o bryd, mae'n bosibl i syrcasau o dir mawr Ewrop sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt ymweld â Chymru, yn amodol ar gydymffurfio â rheoliadau symud. Mae traddodiad y syrcas deithiol yn parhau'n gryf mewn sawl gwlad yn Ewrop; mae nifer ac amrywiaeth yr anifeiliaid gwyllt dan sylw yn fwy nag yn y Deyrnas Unedig. Mae rhai o'r syrcasau hyn yn dal i ddefnyddio anifeiliaid 'traddodiadol' y syrcas, fel eliffantod, llewod a theigrod.

3.8 Yn ôl PETA UK, ym mis Gorffennaf, roedd wyth o wledydd yr UE wedi gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau.[6] Daeth gwaharddiadau i rym yng Ngweriniaeth Iwerddon a'r Alban yn 2018. Mae gwledydd eraill yn gwahardd defnyddio rhywogaethau penodol a cheir llawer o waharddiadau lleol a rhanbarthol.

3.9 Yng Nghymru, mae rhai Awdurdodau Lleol yn gwahardd syrcasau sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt rhag perfformio ar eu tir.

3.10 Nid yw'r rhan fwyaf o syrcasau teithiol yn defnyddio anifeiliaid gwyllt. Yn ôl Cymdeithas Perchenogion Syrcasau Prydain Fawr, mae mwy na thri deg o syrcasau'n teithio o gwmpas Prydain bob blwyddyn.[7]

## Y galw am waharddiad

3.11 Mae Llywodraeth Cymru wedi cael sawl ple gan y cyhoedd a mudiadau'r trydydd sector i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau. Yn ogystal â'r pryderon ynghylch lles yr anifeiliaid, poenir hefyd a yw'n foesegol dderbyniol gwneud i'r anifeiliaid gwyllt deithio, byw mewn llociau dros dro a pherfformio i'n diddanu.

3.12 Mae Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ystyried deisebau sy'n galw am wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yng Nghymru ddwywaith.

- Roedd deiseb a gyflwynwyd gan RSPCA Cymru ym mis Hydref 2015 yn galw am wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau.[8]
- Cafodd deiseb a gyflwynwyd gan Linda Evelyn Joyce Jones a oedd yn galw am wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yng Nghymru ei hystyried gan y Pwyllgor Deisebau ym mis Ionawr 2018[9] a'i thrafod yn y Cyfarfod Llawn ar 7 Mawrth 2018[10].

---

[6] PETA UK <https://www.peta.org.uk/blog/these-17-countries-banned-wild-animal-circuses/>
[7] Cymdeithas Perchenogion Syrcasau Prydain Fawr <http://www.circusgb.com/index.html>
[8] NAW, P-04-653 Gwahardd y Defnydd o Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau yng Nghymru <http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=13740&Opt=0>

[9] Cynulliad Cenedlaethol Cymru P-05-796 Galw ar Lywodraeth Cymru i wahardd yr arfer o ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yng Nghymru

3.13 Yn 2017, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynllun ar gyfer trwyddedu neu gofrestru Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid, gan gynnwys syrcasau.[11] Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn hefyd ynghylch gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau. Roedd mwyafrif llethol y rheini a ymatebodd o blaid gwaharddiad ac addawodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, Lesley Griffiths AC, y byddai'n ystyried cyfleoedd i gyflwyno deddfwriaeth i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw'n debyg i'r rheini a gafwyd i ymgynghoriadau ar y pwnc gan Lywodraethau'r DU a'r Alban:

- Yn 2009, cynhaliodd Defra ymgynghoriad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol. Roedd 95% o'r rheini a ymatebodd yn teimlo nad oedd yn dderbyniol defnyddio unrhyw anifail gwyllt mewn syrcas deithiol.[12]

- Ymgynghorodd Llywodraeth yr Alban ar gynigion i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol am resymau moesegol yn 2014. Roedd trwch y rheini a ymatebodd o blaid gwaharddiad, ac ymhlith ffigurau eraill, roedd bron 96% ohonynt yn teimlo nad oedd unrhyw fudd o gadw anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol.[13]

## Lles anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol

3.14 Nid oes rheoliadau penodol yng Nghymru sy'n ymdrin â lles anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol ond mae yna ddeddfwriaeth ehangach sy'n delio â'r mater:

- Yn ôl **Deddf Lles Anifeiliaid 2006**[14], mae'n drosedd i unrhyw un sy'n gyfrifol am anifail, gan gynnwys anifail gwyllt mewn syrcas deithiol, beidio â diwallu anghenion lles yr anifail. O dan adran 9 Deddf 2006, mae dyletswydd ar y sawl sy'n gyfrifol am anifail i ddiwallu anghenion yr anifail hwnnw. Mae'r anghenion hynny'n cynnwys: ei angen am gynefin addas; ei angen am ddeiet addas; ei angen i allu arddangos patrymau ymddygiad normal; ei angen i gael ei gartrefu gydag anifeiliaid eraill, neu ar wahân iddynt; a'i angen i gael ei amddiffyn rhag unrhyw boen, dioddefaint, anaf neu glefyd.

---

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=20656&Opt=0>

[10] Cynulliad Cenedlaethol Cymru (7 Mawrth 2018) <http://record.assembly.wales/Plenary/4911?lang=cy-GB>

[11] Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid <https://beta.llyw.cymru/arddangosfeydd-teithiol-o-anifeiliaid>

[12] Yr Archifau Cenedlaethol, Defra, Ymgynghoriad ar ddefnyddio Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau, Mawrth 2010 <http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20101109175937/http://www.defra.gov.uk/corporate/consult/circus-wild-animals/>

[13] Llywodraeth yr Alban, A ddylid gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn yr Alban? – Dadansoddiad Ymgynghoriad, Mai 2015 <https://www.gov.scot/Resource/0048/00480385.pdf>

[14] Deddf Lles Anifeiliaid 2006 <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/45/contents>

Mae'n drosedd hefyd yn ôl Deddf 2006 beri poen neu ddioddefaint diangen i anifail.

- Mae **Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007**[15] (o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981) yn ei gwneud yn drosedd cludo unrhyw anifail mewn ffordd sy'n peri, neu a allai beri, anaf neu ddioddefaint diangen i'r anifail hwnnw.
- Mae **Rheoliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Lloegr) 2012** (o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006) yn gofyn am gofrestru perchennog pob syrcas deithiol yn Lloegr sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt.[16] Mae nifer o amodau y mae gofyn i berchenogion syrcasau gydymffurfio â nhw gan gynnwys cyflwyno a llunio manylion teithiau sy'n nodi lleoliad y syrcas a'i hanifeiliaid bob amser. Mae syrcasau trwyddedig yn cael eu harchwilio'n aml i wneud yn siŵr eu bod yn cadw at amodau'r drwydded. Daw'r Rheoliadau hyn i ben ar 19 Ionawr 2020 ac nid yw Llywodraeth y DU am eu hadnewyddu.
- Mae **Deddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoleiddio) 1925**[17] yn ei gwneud yn ofynnol i bawb sy'n hyfforddi neu'n arddangos anifeiliaid gofrestru gydag Awdurdod Lleol a nodi manylion yr anifeiliaid dan sylw. Daeth **Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Lloegr) 2018**[18] □ i rym ar 1 Hydref 2018, gan ddiddymu a disodli Deddf 1925 (yn Lloegr yn unig). Mae angen trwyddedu syrcasau yn Lloegr sy'n arddangos anifeiliaid domestig o dan Reoliadau 2018.

**Cyflwyno gwaharddiad am resymau lles**

3.15 Mae llawer iawn o bobl yn credu bod angen gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol er lles yr anifeiliaid hynny.

3.16 Mae'n drosedd o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 i'r sawl sy'n gyfrifol am anifail beidio â gofalu am les yr anifail (adran 9). Mae Adran 12 y Ddeddf yn rhoi'r pwerau i wneud rheoliadau i hyrwyddo lles anifeiliaid. Dywed Adran 12(1): *"The appropriate national authority may by regulations make such provision as the authority thinks fit for the purpose of promoting the welfare of animals for which a person is responsible, or the progeny of such animals."*

3.17 Byddai angen i Weinidogion Cymru fod yn fodlon bod tystiolaeth wyddonol gref bod lles anifail sy'n cael ei gadw mewn syrcas deithiol yn

---

[15] Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007 <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2007/1047/contents/made>
[16] Defra, Syrcas deithiol gydag anifeiliaid gwyllt: mynnwch drwydded <https://www.gov.uk/guidance/travelling-circus-with-wild-animals-get-a-licence>
[17] Deddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoleiddio) 1925 <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/Geo5/15-16/38>
[18] Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Lloegr) 2018 <https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2018/9780111165485>

dioddef er mwyn gallu troi at y pwerau dirprwyedig yn adran 12 Deddf 2006 i gyflwyno gwaharddiad.

3.18 Wrth drafod y Bil Lles Anifeiliaid yn 2006, cytunodd Llywodraeth y DU bryd hynny, cyn belled â bod tystiolaeth wyddonol ddigonol, y byddai'n dod â gwaharddiad ger bron gan ddefnyddio'r pwerau dirprwyedig a geir yn y Bil Lles Anifeiliaid (Deddf 2006 erbyn hyn) ar ddefnyddio anifeiliaid annomestig mewn syrcasau teithiol. Cafodd Gweithgor Syrcasau ei sefydlu a phenodwyd cyfreithiwr academaidd, Mike Radford, yn gadeirydd arno. Cylch gwaith y Gweithgor oedd darparu ac ystyried tystiolaeth ynghylch pa fath o gludiant a chartref sydd eu hangen ar anifeiliaid annomestig. Barnwyd mai dyma'r ffactorau oedd yn gwneud sefyllfa anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yn wahanol i sefyllfa anifeiliaid gwyllt mewn lleoedd eraill e.e. sŵau.

3.19 Cafodd y Gweithgor ystyried tystiolaeth a ddarparwyd gan fudiadau lles anifeiliaid a chan y diwydiant syrcasau. Casgliad adroddiad y Cadeirydd ('Adroddiad Radford') a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2007 oedd nad oedd digon o dystiolaeth wyddonol i gyfiawnhau gwahardd anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol.[19] Dywedodd hefyd nad oedd fawr o dystiolaeth ei bod hi'n well nac yn waeth ar les anifeiliaid mewn syrcasau teithiol nag ar anifeiliaid oedd yn cael eu cadw mewn mathau eraill o gaethiwed.

3.20 Nid oedd amodau hyfforddi a pherfformio anifeiliaid syrcas gwyllt yn rhan o gylch gwaith y Gweithgor (roedd gweithgor arall yn ystyried hyfforddiant a pherfformiad anifeiliaid yn gyffredinol). Yn ei adroddiad, cydnabu'r Cadeirydd bod osgoi dyblygu gwaith yn beth dymunol, ond cyfaddefodd y gallai ddychmygu y byddai sylwedd ei adroddiad wedi bod yn wahanol pe bai'r Gweithgor wedi cael edrych ar y darlun llawn.

3.21 Er gwaethaf ei gasgliadau, dywedodd y Cadeirydd nad yw'r status quo yn opsiwn, gan gydnabod cynnydd yn y disgwyliadau y bydd y Llywodraeth yn gwneud rhywbeth; mae'r diwydiant syrcas yn eithriad, gan fod y defnydd o anifeiliaid yn y rhan fwyaf o gyd-destunau masnachol eraill fel arfer yn ddarostyngedig i reoliad penodol; mae angen datrys y sefyllfa bresennol o ansicrwydd sy'n wynebu syrcasau; mae'r sefyllfa bresennol yn gweithredu yn erbyn buddiannau'r anifeiliaid dan sylw (awgrymwyd y gallai gweithredwyr syrcas fod yn amharod i fuddsoddi yn eu cyfleusterau oni bai bod ganddynt ddigon o hyder y bydd defnyddio anifeiliaid gwyllt yn parhau'n gyfreithlon), a; mae cefnogaeth i ddiwygio i'w weld ar bob ochr i'r ddadl.

3.22 Mewn ymateb i ddeiseb RSPCA Cymru 2015 a gyflwynwyd i Bwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd ar y pryd, Rebecca Evans AC, adolygiad

[19] Radford, M. (Hydref 2007). *Wild Animals in Travelling Circuses, The Report of the Chairman of the Circus Working Group* <http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20110318164910/http:/www.defra.gov.uk/foodfarm/farmanimal/welfare/documents/circus-report.pdf>

annibynnol o'r dystiolaeth ar les anifeiliaid mewn syrcasau teithiol a syrcasau nad ydynt yn teithio. Comisiynwyd yr Athro Stephen Harris i gynnal yr adolygiad. Yn wahanol i Adroddiad Radford, ystyriodd yr adolygiad gan Harris *et al* ('Adolygiad Harris'), a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2016, effaith gyfunol pob agwedd ar reoli a'r amgylchedd ar les anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol a swau symudol.[20] Y rheswm am ddilyn y trywydd hwnnw oedd er y gellid dehongli bod un agwedd ar reoli yn dda o safbwynt lles yr anifail, gallai agweddau eraill fod yn ddrwg. Felly o'u rhoi i gyd gyda'i gilydd, y casgliad fyddai ei fod yn ddrwg i les yr anifail.

3.23 Nododd a chysylltodd Harris *et al* ag arbenigwyr a sefydliadau am eu barn ar les anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol. Gwnaed hynny drwy holiadur dau gam. Cafodd yr arbenigwyr eu didoli'n bum grŵp yn ôl eu harbenigeddau.

3.24 Adroddodd Harris *et al* fod y pum grŵp o arbenigwyr *"agreed that complex, stimulating and environmentally enriched environments promote good welfare in captive wild animals, and the interaction between enclosure size and complexity leads to species-specific welfare benefits. Enrichment is the preferred means of tackling the underlying causes of abnormal behaviour patterns since it gives animals choice.. However, in travelling circuses and mobile zoos, the provision of environmental enrichment, particularly control-orientated enrichment, is likely to be extremely limited or non-existent due to the need to maintain portability, ease of handling of the animals and compliance during training sessions."* Wrth ystyried effaith pob agwedd ar reoli ac amgylchedd anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol, gan gynnwys y profiadau cadarnhaol, daeth Harris *et al* i'r casgliad na allent ddod o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod profiad cronnus cyfnodau perfformio, cael eu harddangos a/neu gael eu trin, yn gwneud iawn am oes o gaethiwed, tarfu cyson ac ychydig iawn o ddewis a rheolaeth. Yn wir, daethant i'r casgliad bod bywyd anifail gwyllt mewn syrcas deithiol *"does not appear to constitute either a 'good life' or a 'life worth living'."*

3.25 Eu prif gasgliad oedd na ellir bodloni anghenion lles anifeiliaid gwyllt mewn amgylcheddau teithio i'r un graddau ag mewn amgylcheddau sefydlog ac i'r perwyl hwnnw *"The available scientific evidence indicates that captive wild animals in circuses and other travelling animal shows do not achieve their optimal welfare requirements, as set out under the Animal Welfare Act 2006, and the evidence would therefore support a ban on using wild animals in travelling circuses and mobile zoos on animal welfare grounds."*

3.26 Mae casgliadau Radford a Harris *et al* yn wahanol iawn. Rhaid cofio eu bod wrth gwrs yn gweithio yn unol â chylchoedd gwaith gwahanol a

---

[20] Harris *et al*. (Ebrill 2016). *The Welfare of Wild Animals in Travelling Circuses* <https://llyw.cymru/lles-anifeiliaid-gwyllt-mewn-syrcasau-teithiol>

gwnaeth Radford gyfaddef y gallai ei gasgliadau fod wedi bod yn wahanol pe bai ei Weithgor wedi cael gwahoddiad i edrych ar y 'darlun llawn'.

3.27 Mae Llywodraeth y DU (Dadl Tŷ'r Cyffredin, 1 Mawrth 2012) [21] eisoes wedi ystyried nad oes digon o dystiolaeth i gyfiawnhau gwaharddiad ar sail lles, ac yn hytrach cynigiodd gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt ar sail foesegol. Cafwyd esboniad llawnach gan Lywodraeth y DU wedi hynny o'i barn bod angen deddfwriaeth sylfaenol i gael gwaharddiad cyfreithlon, o'i gyfieithu:

*"In October 2007 the report 'Wild Animals in Travelling Circuses: The Report of the Chairman of the Circus Working Group' (commonly referred to as the 'Radford Report'), commissioned by the previous Government, concluded that, in terms of using the delegated powers in the Animal Welfare Act 2006 to introduce a ban, after reviewing the available scientific evidence submitted, 'there appears to be little evidence to demonstrate that the welfare of animals kept in travelling circuses is any better or worse than that of animals kept in other captive environments'. Therefore, in the absence of any compelling scientific evidence, any attempt to ban the use of an animal using the delegated powers provided by the Animal Welfare Act would fail the test of proportionality, and primary legislation is needed to 'have any realistic prospect of achieving a lawful ban'."*[22]

3.28 Ni chyflwynodd Llywodraeth y DU ddeddfwriaeth sylfaenol yn gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt; yn hytrach, cyflwynodd Reoliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Lloegr) 2012 fel mesur dros dro.

3.29 Ategwyd y farn nad oes digon o dystiolaeth i gyfiawnhau gwaharddiad ar sail lles gan Lywodraeth yr Alban yn ei hymgynghoriad ar gynigion i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol ar sail foesegol yn 2014:

*"….scientific knowledge by itself does not yet provide relevant, rational and reliable answers to many questions on animal welfare typically raised by the general public. This is compounded when considering the welfare of wild animals in travelling circuses by the fact that there is little directly relevant scientific evidence of any sort.*

*Within the current scientific and legal context, the welfare status of these animals cannot be conclusively proven to be good or bad in comparison with animals in other situations generally considered to be acceptable. In the absence of sufficient scientific evidence of irredeemable welfare problems within a travelling circus environment,*

---

[21] Gwefan Llywodraeth y DU, Tŷ'r Cyffredin, Atebion llafar i gwestiynau (1 Mawrth 2012) <https://publications.parliament.uk/pa/cm201212/cmhansrd/cm120301/debtext/120301-0001.htm>
[22] Llywodraeth EM, Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau (Ebrill 2013) <https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/228862/8538.pdf>

*any attempt to ban the use of an animal using the delegated powers provided by the Animal Health and Welfare (Scotland) Act 2006 would fail the test of proportionality."*

3.30 Penderfynodd Llywodraethau'r DU a'r Alban ar eu safbwyntiau unigol cyn cyhoeddi Adolygiad Harris. O gofio'r nifer gymharol fach o anifeiliaid dan sylw, amheuir a fyddai canlyniadau unrhyw ymchwil bellach yn ddigon ystyrlon a chadarn i hysbysu'r drafodaeth yn well.

**Sail foesegol dros waharddiad**

3.31 Ar un adeg, mynychu syrcas fyddai'r unig gyfle oedd gan y rhan fwyaf o bobl i weld anifeiliaid gwyllt egsotig. Mae pethau wedi newid ers hynny. Mae syrcasau wedi cael eu disodli yn hynny o beth gan swau modern ac effeithiol sy'n rhoi'r flaenoriaeth fwyaf i gynnal y safonau uchaf er lles eu hanifeiliaid. Mae swau sydd wedi'u trwyddedu o dan Ddeddf Trwyddedu Swau 1981[23] yn gorfod cynnal mesurau cadwraeth ac addysgu a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd am gadwraeth, yn benodol trwy ddarparu gwybodaeth am yr anifail a ddangosir a'i gynefin.[24] [25] Nid oes yr un gofyn ar syrcasau ac mae'n amheus a allai amgylchedd syrcas byth ateb y fath ofyn. Yn ogystal â'r cyfleoedd i weld anifeiliaid gwyllt mewn swau, mae rhaglenni natur o'r radd flaenaf yn ennyn parch cynyddol at werth cynhenid anifeiliaid gwyllt yn eu cynefin naturiol.

3.32 Mae defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn codi pryderon ynghylch urddas anifeiliaid. Mae'n fwyfwy anodd cyfiawnhau cadw anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol a disgwyl iddynt berfformio triciau.

3.33 Mae barn gref na ellir diwallu anghenion lles anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol. Er nad oes tystiolaeth bendant bod lles anifail mewn syrcas deithiol yn dioddef mwy na lles anifail mewn amgylchedd 'artiffisial' arall, mae pobl Cymru a mudiadau'r trydydd sector wedi bod yn lobïo o blaid gwahardd yr arfer.

3.34 O ystyried nifer fach yr anifeiliaid dan sylw, a bod y nifer hwnnw'n gostwng, mae'n bosibl, dros amser, y bydd syrcasau teithiol yn dewis rhoi'r gorau i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt. Er hynny, ni ellir gwarantu hynny a bydd gwaharddiad yn rhoi neges glir bod pobl Cymru'n credu bod yr arfer yn un o'r oes o'r blaen ac yn foesegol annerbyniol.

---

[23] Deddf Trwyddedu Swau 1981 <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1981/37/pdfs/ukpga_19810037_en.pdf>
[24] Defra, Safonau Ymarfer Sw Modern yr Ysgrifennydd Gwladol <https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69596/standards-of-zoo-practice.pdf>
[25] Nid oes angen trwydded ar rai swau, a hynny oherwydd nifer fach yr anifeiliaid a gedwir neu oherwydd y math o anifail a gedwir, ac nid oes gofyn iddyn nhw gadw felly at amodau Deddf Trwyddedu Swau 1981.

3.35 Wrth i Ddeddf Cymru 2017 ddod i rym, mae'r pŵer gan Weinidogion Cymru i gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru ar sail foesegol.

**Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)**

3.36 Mae Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) yn ceisio ei gwneud yn drosedd i anifail gwyllt (fel y'i diffinnir yn y Bil) gael ei ddefnyddio mewn syrcas deithiol. Bydd anifail gwyllt wedi'i ddefnyddio os bydd yr anifail hwnnw'n perfformio neu'n cael ei arddangos. Byddai'r drosedd yn cael ei chyflawni gan y person sy'n weithredwr (fel y'i diffinnir yn y Bil) y syrcas deithiol os ydynt yn defnyddio, neu'n achosi neu'n caniatáu i berson arall ddefnyddio anifail gwyllt yn y syrcas deithiol. Mae person sy'n euog o drosedd o'r fath yn agored, ar euogfarn ddiannod, i ddirwy.

3.37 Mae syrcasau teithiol wedi teithio o amgylch y Deyrnas Unedig ers dros ddau gan mlynedd a bydd croeso iddynt yng Nghymru, ar yr amod nad ydynt yn defnyddio anifeiliaid gwyllt. Ni fydd y Bil yn effeithio ar y defnydd o anifeiliaid domestig mewn syrcasau teithiol, ac ni fydd yn atal anifeiliaid gwyllt rhag cael eu defnyddio ar gyfer adloniant mewn lleoliadau eraill.

3.38 Nid oes unrhyw syrcasau teithiol gydag anifeiliaid gwyllt yng Nghymru, ond maent yn ymweld. Mae'n ofynnol i syrcasau sydd wedi'u trwyddedu dan Reoliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Lloegr) 2012 gyflwyno amserlenni teithio sy'n rhoi manylion eu lleoliadau bob amser. Yn ôl yr amserlenni teithio a ddarparwyd i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) ers i'r Rheoliadau trwyddedu ddod i rym, mae'r ddwy syrcas deithiol sy'n ymweld â Chymru fel arfer yn dechrau teithio rhwng Chwefror ac Ebrill, gyda theithiau'n dod i ben ym mis Hydref neu fis Tachwedd. Mae Circus Mondao wedi ymweld â Chymru bob blwyddyn, o fis Mawrth neu fis Ebrill i fis Gorffennaf. Ymwelodd Syrcas Peter Jolly yn 2014 (Medi i Hydref), 2016 (Mehefin i Fedi) a 2018 (Mai i Orffennaf). Mae gan y Bil ddyddiad gorfodi o 1 Rhagfyr 2020. Erbyn hyn, disgwylir i'r ddwy syrcas deithiol fod wedi cwblhau teithio a dychwelyd i'w pencadlysoedd gaeaf. Credwn y gallai dyddiad gorfodi cynharach roi syrcasau teithiol mewn sefyllfa anodd ac afresymol, gan orfod addasu perfformiadau, seilwaith a gwneud trefniadau i'w hanifeiliaid gwyllt gydymffurfio â darpariaethau'r Bil tra'u bod yn dal i deithio.

3.39 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (AERh) (Adran 6) yn cynnwys asesiad o effeithiau cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon.

**Pwerau i lunio is-ddeddfwriaeth**

3.40 Mae'r pwerau i lunio is-ddeddfwriaeth yn y Bil yn ddewisol, ac nid oes unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r pwerau hyn ar unwaith.

3.41 Yn y Bil, mae "anifail gwyllt" yn golygu anifail o fath nad yw'n cael ei ddomestigeiddio yn gyffredin yn Ynysoedd Prydain. Mae'n bosibl y gall fod ansicrwydd neu safbwyntiau croes ynghylch a ddylid ystyried math o anifail yn wyllt ai peidio. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu math o anifail (a) sydd i'w ystyried yn anifail gwyllt, neu (b) nad yw i'w ystyried yn anifail gwyllt. Fodd bynnag, nid yw'r pŵer i lunio rheoliadau yn amharu ar gyffredinolrwydd y diffiniad o anifail gwyllt yn y Bil. Nid yw'r pŵer hwn yn rhoi gofyniad ar Weinidogion Cymru i restru, mewn deddfwriaeth, yr holl anifeiliaid gwyllt.

3.42 Yn y Bil, mae "syrcas deithiol" yn golygu syrcas sy'n teithio o un lle i'r llall er mwyn darparu adloniant yn y mannau hynny, er bod cyfnodau pan nad yw'n teithio o un lle i'r llall. Mae'n bosibl y gall fod achosion lle gallai fod ansicrwydd neu safbwyntiau croes ynglŷn ag a yw math o ymgymeriad, gweithred neu adloniant yn syrcas deithiol neu beidio. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu math o ymgymeriad, gweithred neu adloniant a) y dylid ei ystyried yn syrcas deithiol neu b) na ddylid ei ystyried yn syrcas deithiol. Fodd bynnag, nid yw'r pŵer i wneud rheoliadau yn amharu ar gyffredinolrwydd y diffiniad o syrcas deithiol yn y Bil. Nid yw'r pŵer hwn yn rhoi gofyniad ar Weinidogion Cymru i restru, mewn deddfwriaeth, pob math o ymgymeriadau, gweithredoedd neu adloniant sydd i'w hystyried yn syrcas deithiol.

3.43 Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys is-ddeddfwriaeth pan fydd o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny. Byddai union natur unrhyw ymgynghoriad mewn perthynas ag arfer y pwerau i lunio is-ddeddfwriaeth yn cael ei benderfynu ar yr adeg briodol.

**Gorfodi Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)**

3.44 Mae'r Atodlen yn gwneud darpariaeth ynghylch penodi arolygwyr a phwerau gorfodi, gan gynnwys pwerau mynediad a chwilio. Nodir terfynau'r pwerau hyn yn yr Atodlen ac fe'u crynhoir isod.

3.45 Mae arolygwyr yn bobl a benodir gan gyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu Weinidogion Cymru. Bydd y Bil, pe bai'n dod yn gyfraith, yn cael ei orfodi gan Awdurdodau Lleol.

3.46 Mae'r Bil yn rhoi pwerau i arolygwyr fynd i mewn i fangreoedd, gan gynnwys strwythurau symudol (er enghraifft cerbydau a chartrefi symudol) sy'n gysylltiedig yn gyffredin â syrcasau teithiol. Rhaid bod sail resymol dros amau bod trosedd yn cael ei chyflawni, wedi'i chyflawni neu ar fin cael ei chyflawni neu y gellir dod o hyd i dystiolaeth o gyflawni trosedd o'r fath. Ni chaiff arolygwyr fynd i mewn i fangre a ddefnyddir fel annedd heb warant yn eu hawdurdodi i wneud hynny, a

gyhoeddwyd gan ynad heddwch. Mae’r Bil wedi’i ddrafftio gan roi sylw dyledus i hawliau dynol ac mae’r Atodlen yn nodi’r amodau y mae’n rhaid eu bodloni cyn y gellir rhoi gwarant a chyfyngiadau gwarant.

3.47 Gall arolygwyr ddefnyddio grym rhesymol lle bo angen i arfer pŵer mynediad a gallant fynd â hyd at ddau berson arall ac unrhyw beth sydd ei angen (gan gynnwys offer a deunyddiau) i safleoedd i’w cynorthwyo yn eu dyletswyddau. Gallai’r rhai sy’n cynorthwyo gynnwys arbenigwyr, er enghraifft arbenigwr sŵolegol i helpu i adnabod anifeiliaid, neu filfeddyg.

3.48 Mae person sy’n euog o fethu â chydymffurfio â gofyniad a wneir yn rhesymol gan arolygydd, neu sy’n rhwystro arolygydd yn fwriadol pan fydd yr arolygydd yn cyflawni ei ddyletswyddau, yn agored, ar euogfarn ddiannod, i ddirwy.

3.49 Mae’r effaith ar Awdurdodau Lleol o orfodi’r Bil yn cael ei hystyried yn yr AERh. Disgwylir i’r effeithiau fod yn fach iawn, yn enwedig wedi i Lywodraeth y DU gyflwyno Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau (Rhif 2)[26] gyda’r bwriad o wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn Lloegr pan fydd Rheoliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Lloegr) 2012 yn dod i ben ym mis Ionawr 2020. Byddai unrhyw syrcasau teithiol yn Lloegr yn cael eu gwahardd rhag defnyddio anifeiliaid gwyllt ac ni fyddent, yn gyfreithiol, yn gallu defnyddio anifeiliaid gwyllt yn unrhyw ran o Brydain.

**Gwelliannau sy’n ymwneud â thrwyddedu syrcasau**

3.50 Mae adran 1 Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976[27] yn darparu na chaiff unrhyw un gadw unrhyw anifail gwyllt peryglus ac eithrio o dan awdurdod trwydded. Eithriad i hyn, o dan adran 5(2) Deddf 1976, yw lle mae anifail gwyllt peryglus yn cael ei gadw mewn syrcas. Cyflwynodd Llywodraeth y DU y Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau (Rhif 2) ar 30 Ebrill 2019. Mae’r Bil yn cynnwys darpariaeth sy’n dileu’r eithriad ar gyfer syrcasau yn adran 5(2) Deddf 1976 ar gyfer Lloegr a’r Alban. Dyddiad dod i rym Bil Llywodraeth y DU yw 20 Ionawr 2020. Byddai’r eithriad yn parhau ar gyfer Cymru. Gyda dyfodiad gwaharddiad ar anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru, gellir hepgor yr eithriad hwn. Bydd angen trwydded o dan Ddeddf 1976 ar unrhyw syrcas sy’n cadw ond heb ddefnyddio anifail gwyllt peryglus, yn ogystal â syrcas nad yw’n teithio (oni bai bod y naill fath a’r llall o syrcas yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Trwyddedu Swau 1981).

3.51 Mae adran 1 Deddf Trwyddedu Swau 1981 yn darparu ei bod yn anghyfreithlon gweithredu sw ac eithrio o dan awdurdod trwydded a roddwyd o dan Ddeddf 1981. Mae adran 1(2) yn darparu bod “sw” yn sefydliad lle cedwir anifeiliaid gwyllt i’w harddangos i’r cyhoedd ac

---

[26] www.parliament.uk, Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau (Rhif 2) <https://services.parliament.uk/bills/2017-19/wildanimalsincircusesno2.html>
[27] Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1976/38>

eithrio at ddibenion syrcas. Diffinnir syrcas yn adran 21 o Ddeddf 1981 fel man lle mae anifeiliaid yn cael eu cadw neu eu cyflwyno'n gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion perfformio triciau neu symudiadau. Gyda gwahardd anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru, bydd yr eithriad yn adran 1(2) yn dod yn ddiangen a gellir ei ddileu ar gyfer Cymru. Effaith hyn yw y gallai darpariaethau Deddf 1981 ddod yn berthnasol i syrcas nad yw'n teithio yng Nghymru os oes ganddi anifeiliaid gwyllt. Os daw Deddf 1981 yn berthnasol i syrcas, yna o dan adran 5(1) o Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976, mae'r syrcas honno wedi'i heithrio rhag cael trwydded o dan Ddeddf 1976. Rhaid i syrcas fodloni gofynion adran 1 Deddf 1981 er mwyn iddi fod angen trwydded sw.

## 4. Ymgynghori

4.1 Cyhoeddwyd ymgynghoriad cyhoeddus wyth wythnos ar y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) drafft ar 1 Hydref 2018.[28]

4.2 Gofynnwyd i ymatebwyr ystyried 14 cwestiwn yn ymwneud â'r polisi cyffredinol, yr effaith ar blant a phobl ifanc, effeithiau economaidd, darpariaethau'r Bil drafft a'r effaith ar yr iaith Gymraeg.

4.3 Nid oedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ynghylch a ddylid gwahardd defnyddio pob anifail mewn syrcas, neu a ddylid gwahardd defnyddio anifeiliaid mewn unrhyw fath arall o adloniant.

4.4 Daeth 6,546 o ymatebion i'r ymgynghoriad. O'r rheini, daeth 4,576 dros e-bost, 1,961 ar y ffurflen ymateb ar-lein a naw ymateb trwy'r post. Roedd pedair mil ac un deg naw o'r atebion e-bost yn union yr un peth ac yn ateb y ddau gwestiwn cyntaf yn unig. Fe'u hanfonwyd fel rhan o ymgyrch gan sefydliad Born Free. Dadansoddwyd yr holl ymatebion a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ym mis Ionawr 2019.[29]

4.5 Mae naw deg saith y cant o ymatebwyr yn cefnogi ein cynnig i gyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n ei gwneud yn drosedd i anifail gwyllt gael ei ddefnyddio mewn syrcas deithiol.

4.6 Mae naw deg saith y cant o ymatebwyr yn cytuno y byddai gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau plant a phobl ifanc tuag at anifeiliaid.

4.7 Mae chwe deg y cant o'r ymatebwyr o'r farn y byddai gwaharddiad yn cael effaith ar y diwydiant syrcas; roedd y mwyafrif o'r farn bod hyn yn effaith gadarnhaol.

4.8 Mae wyth deg wyth y cant o ymatebwyr yn cytuno â'r drosedd arfaethedig fel y'i nodir yn y Bil drafft ac mae naw deg y cant yn cytuno y dylai'r drosedd fod yn berthnasol i weithredwr y syrcas deithiol, hyd yn oed os nad y gweithredwr yw'r person sy'n defnyddio'r anifail gwyllt.

4.9 Mae naw deg y cant o ymatebwyr yn cytuno â'r diffiniad arfaethedig o "weithredwr". Roedd wyth deg tri y cant yn cytuno â'r diffiniad o "anifail gwyllt". Ac roedd 91% yn cytuno â'r diffiniad o "syrcas deithiol".

4.10 Mae pum deg saith y cant o ymatebwyr yn cytuno y dylai Gweinidogion Cymru gael pwerau i wneud rheoliadau i nodi mathau o anifeiliaid sydd, neu nad ydynt, i'w hystyried yn wyllt. Roedd saith deg wyth y cant yn cytuno dylai fod gan Weinidogion Cymru y pwerau i wneud rheoliadau i

---

[28] Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru) <https://llyw.cymru/bil-anifeiliaid-gwyllt-mewn-syrcasau-teithio>

[29] Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru), Crynodeb o'r Ymatebion <https://llyw.cymru/bil-anifeiliaid-gwyllt-mewn-syrcasau-teithio>

bennu'r mathau o weithgarwch, act, adloniant neu debyg sydd i'w hystyried yn syrcas deithiol.

4.11 Mae saith deg wyth y cant o ymatebwyr yn cytuno â'r darpariaethau gorfodi a nodir yn yr Atodlen.

4.12 Mae bron pob un o'r ymatebwyr yn credu na fyddai gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar yr iaith Gymraeg.

4.13 Mae ymatebwyr yn pryderu am yr hyn a fydd yn digwydd i'r anifeiliaid gwyllt sy'n cael eu defnyddio gan syrcasau teithiol ar hyn o bryd pe bai gwaharddiad yn cael ei weithredu. Roedd llawer yn credu y dylent gael eu hailgartrefu/ymddeol mewn noddfeydd.

4.14 Ni ellir ystyried y canlyniadau hyn yn gynrychioliadol o farn neb heblaw'r bobl a'r grwpiau hynny a oedd â diddordeb digonol yn y mater i ymateb i'r ymgynghoriad, ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli barn y cyhoedd yn gyffredinol. Serch hynny, mae'r ymgynghoriad hwn a'r ohebiaeth a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol yn ategu bod cefnogaeth gyhoeddus i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol.

Mae Tabl 4.14 yn nodi'r newidiadau a wnaed i'r Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru) yn dilyn ymgynghoriad, cyn ei gyflwyno i'r Cynulliad, a'r rhesymau dros y newidiadau hynny. Mae'r rhifau adran isod yn cyfeirio at adrannau'r Bil fel y'u cyflwynwyd, oni nodir yn wahanol.

| **Newidiadau a wnaethpwyd** | **Rheswm** |
|---|---|
| Mae enw'r Bil wedi newid i "Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)"; mae "Teithiol" wedi ei ddileu. | Mae'r newid hwn yn adlewyrchu cwmpas ehangach y Bil i gynnwys darpariaethau i hepgor Adran 5(2) o Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 a newid Adran 1(2) o Ddeddf Trwyddedu Swau 1981 (gweler isod). Nid yw'r drosedd, defnyddio anifail gwyllt mewn syrcas deithiol, wedi newid. |
| Adran 3 (testun gyda llinell drwodd wedi'i ddileu):<br><br>3 Ystyr "anifail gwyllt"<br><br>(1) Yn y Ddeddf hon, ystyr "anifail gwyllt" yw anifail o fath nad yw wedi ei ddomestigeiddio yn gyffredin yn yr Ynysoedd Prydeinig.<br><br>~~(2) Mae anifail yn anifail o fath sydd wedi ei ddomestigeiddio os yw ymddygiad, cylch bywyd neu ffisioleg~~ | Nid oedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cytuno â'r rhan o'r diffiniad sy'n delio ag anifeiliaid wedi eu domestigeiddio ac argymhellwyd dileu 3(2). Roedd pryderon, o dan y diffiniad hwn, y gallai bridio sy'n cymell unrhyw newid yn ymddygiad, cylch bywyd neu ffisioleg anifail arwain at ddosbarthu'r anifail fel 'wedi ei ddomestigeiddio'. Ymhellach, gellid dehongli bridio anifeiliaid am 'genedlaethau lluosog' |

| | |
|---|---|
| ~~anifeiliaid o'r math hwnnw wedi ei newid o ganlyniad i'r ffaith bod bridio neu amodau byw cenedlaethau lluosog o anifeiliaid o'r math hwnnw wedi bod o dan reolaeth ddynol.~~<br><br>(3) Er gwaethaf isadran (1), caiff rheoliadau bennu, at ddibenion y Ddeddf hon- (a) math o anifail sydd i'w ystyried yn anifail gwyllt, (b) math o anifail nad yw i gael ei ystyried yn anifail gwyllt.<br><br>(4) Yn y Ddeddf hon, mae i "anifail" yr un ystyr ag a roddir i "animal" gan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 (p.45) (gweler adran 1). | fel dwy genhedlaeth neu fwy, ac nid dyna a fwriadwyd. Lle mae anifeiliaid wedi cael eu domestigeiddio trwy fridio detholus i'w haddasu i fyw ochr yn ochr â phobl, mae hynny wedi bod am gannoedd ac mewn rhai achosion miloedd o flynyddoedd. Er enghraifft, gellid honni bod teigr a fagwyd mewn caethiwed, a hwnnw'r ail genhedlaeth i'w fagu mewn caethiwed, yn anifail wedi ei ddomestigeiddio. Dan ddehongliad o'r fath, gellid dadlau bod swau yn llawn anifeiliaid sydd wedi eu domestigeiddio. Nid yw hyn yn wir; nid yw anghenion teigr a anwyd mewn caethiwed yn sylfaenol wahanol i anghenion teigrod eraill a anwyd yn y gwyllt. Awgrymodd ymatebwyr mai ateb mwy ffafriol fyddai alinio'r diffiniad o 'anifail gwyllt' gyda'r dehongliad o 'anifail gwyllt' yn Neddf Trwyddedu Swau 1981. Cyflawnwyd hyn trwy gadw paragraff 3(1) a dileu paragraff 3(2) . Mae hyn yn sicrhau cydraddoldeb â deddfwriaeth arall ac yn osgoi sefyllfa lle ystyrir bod yr un rhywogaeth yn 'wyllt' mewn sw, ond 'wedi eu domestigeiddio' o'u cadw mewn syrcas. |
| Adran 4 (testun gyda llinell drwodd wedi'i ddileu):<br><br>4 Ystyr "syrcas deithiol"<br><br>(1) Yn y Ddeddf hon, ystyr "syrcas deithiol" yw syrcas sy'n teithio o un man i fan arall at ddiben darparu adloniant yn y mannau hynny.<br><br>(2) Mae "syrcas deithiol" yn cynnwys syrcas sy'n teithio fel y crybwyllir yn is-adran (1) at y diben a grybwyllir yno, er bod cyfnodau pan nad yw'n teithio o un man i fan arall.<br><br>~~(3) Ond nid yw "syrcas deithiol" yn cynnwys syrcas sy'n teithio er mwyn adleoli i safle sefydlog newydd i'w ddefnyddio yn unig neu'n bennaf fel~~ | Credai ymatebwyr i'r ymgynghoriad nad oedd angen cynnwys 4(3) a'i fod yn rhy amwys, gan argymell ei ddileu. |

| | |
|---|---|
| ~~man i gynnal perfformiadau.~~<br><br>(4) Er gwaethaf is-adran (1), caiff rheoliadau bennu math o ymgymeriad, perfformiad, neu adloniant sydd i'w ystyried yn syrcas deithiol at ddibenion y Ddeddf hon | |
| Adran 7 newydd. Achosion: troseddau a gyflawnwyd gan bartneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig. | Mae'r adran hon yn nodi sut y dylid dwyn achos yn erbyn partneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig lle mae honiad eu bod wedi cyflawni trosedd o dan Adran 1. |
| Adran 8, is-adran (1) newydd. Cynnwys darpariaeth i hepgor Adran 5(2) Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 (fel y diwygiwyd gan Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau 2019). | Mae adran 1 Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 yn darparu na chaiff unrhyw un gadw unrhyw anifail gwyllt peryglus ac eithrio o dan awdurdod trwydded. Eithriad i hyn, o dan adran 5(2) Deddf 1976, yw lle mae anifail gwyllt peryglus yn cael ei gadw mewn syrcas.<br><br>Cyflwynodd Llywodraeth y DU y Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau (Rhif 2) ar 30 Ebrill 2019. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n dileu'r eithriad ar gyfer syrcasau yn adran 5(2) Deddf 1976 ar gyfer Lloegr a'r Alban. Dyddiad dod i rym Bil Llywodraeth y DU yw 20 Ionawr 2020. Byddai'r eithriad yn parhau ar gyfer Cymru. Gyda dyfodiad gwaharddiad ar anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru, gellir hepgor yr eithriad hwn. Bydd angen trwydded o dan Ddeddf 1976 ar unrhyw syrcas sy'n cadw ond heb ddefnyddio anifail gwyllt peryglus, yn ogystal â syrcas nad yw'n teithio (oni bai bod y naill fath o syrcas yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Trwyddedu Swau 1981). Effaith y gwelliant hwn, ynghyd â'r diwygiad i Ddeddf Trwyddedu Swau 1981 (gweler isod), yw cau bylchau lle gallai syrcas yng Nghymru gadw anifail gwyllt a chael ei heithrio rhag gofynion trwydded. |
| Adran 8, is-adran (2) newydd. Cynnwys darpariaeth i wella adran 1(2) Deddf Trwyddedu Swau 1981 | Mae adran 1 Deddf Trwyddedu Swau 1981 yn darparu ei bod yn anghyfreithlon gweithredu sw ac |

| | |
|---|---|
| yng Nghymru. | eithrio o dan awdurdod trwydded a roddwyd o dan Ddeddf 1981. Mae adran 1(2) yn darparu bod “sw” yn sefydliad lle cedwir anifeiliaid gwyllt i’w harddangos i’r cyhoedd ac eithrio at ddibenion syrcas. Diffinnir syrcas yn adran 21 o Ddeddf 1981 fel man lle mae anifeiliaid yn cael eu cadw neu eu cyflwyno’n gyfan gwbl neu’n bennaf at ddibenion perfformio triciau neu symudiadau. Gyda gwahardd anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru, bydd yr eithriad yn adran 1(2) yn dod yn ddiangen a gellir ei ddileu ar gyfer Cymru. Effaith hyn yw y gallai darpariaethau Deddf 1981 ddod yn berthnasol i syrcas nad yw’n teithio yng Nghymru os oes ganddi anifeiliaid gwyllt. Os daw Deddf 1981 yn berthnasol i syrcas, yna o dan adran 5(1) o Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976, mae’r syrcas honno wedi’i heithrio rhag cael trwydded o dan Ddeddf 1976. Rhaid i syrcas fodloni gofynion adran 1 Deddf 1981 er mwyn iddi fod angen trwydded sw. Mae’r gwelliant hwn, ynghyd â’r gwelliant i Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 (gweler uchod), yn golygu cau bylchau lle gallai syrcas yng Nghymru gadw anifail gwyllt a chael ei heithrio rhag gofynion trwydded. |
| Adran 9 newydd. Pŵer yr Uchel Lys i ddatgan yn anghyfreithlon weithred neu anwaith y Goron. | Mae’r rhain yn debyg i ddarpariaethau Deddf Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Yr Alban), a phe digwyddai’r sefyllfa annhebygol fod y Ddeddf yn gymwys i’r Goron, gellid caniatáu cymryd camau tra bod statws a natur y corff hwnnw yn cael eu hystyried. |
| Adran 10 newydd. Tir y Goron: pwerau mynediad. | |
| Atodlen - dileu’r pŵer i stopio cerbydau a’u chwilio:<br><br>~~Pŵer i stopio cerbydau a’u chwilio 14~~<br><br>~~(1) Caniateir i gwnstabl mewn lifrai, neu arolygydd os yw yng nghwmni cwnstabl mewn lifrai, stopio cerbyd at ddiben mynd iddo a’i chwilio wrth arfer~~ | Mae pwerau mynediad yn cael eu nodi yn yr Atodlen ac mae ‘mangreoedd’ yn cynnwys cerbydau, pebyll a strwythurau symudol. Dylai’r camau gorfodi fod yn gymesur â’r drosedd ac ystyrir nad oes angen cynnwys pwerau i stopio a chwilio cerbydau syrcas teithiol am dystiolaeth o ddefnyddio anifeiliaid |

| | |
|---|---|
| ~~pŵer mynediad.~~<br><br>~~(2) Caniateir stopio cerbyd am gyhyd ag y bo'n rhesymol ofynnol at ddiben arfer y pŵer mynediad.~~<br><br>~~(3) Caniateir arfer y pŵer mynediad naill ai yn y man lle y stopiwyd y cerbyd neu gerllaw.~~ | gwyllt. Nid yw dileu'r pŵer i stopio a chwilio cerbydau yn effeithio'n sylweddol ar ganlyniad y polisi. |

## 5. Pŵer i lunio is-ddeddfwriaeth

5.1 Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i lunio is-ddeddfwriaeth. Mae Tabl 5.1 (is-ddeddfwriaeth) yn nodi mewn perthynas â'r rhain:

(a) Y person, neu'r corff, y rhoddir y pŵer iddo;

(b) ar ba ffurf y mae'r pŵer i gael ei arfer;

(c) priodoldeb y pŵer dirprwyedig;

(d) y weithdrefn gymhwysol; hynny yw, a yw'n "gadarnhaol", "negyddol", neu "dim gweithdrefn", ynghyd â rhesymau pam yr ystyrir ei fod yn briodol.

5.2 Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynghylch cynnwys yr is-ddeddfwriaeth lle'r ystyrir ei bod yn briodol gwneud hynny. Penderfynir ar union natur yr ymgynghoriad pan fydd y cynigion wedi'u ffurfioli.

**Tabl 5.1: Crynodeb pwerau i lunio is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)**

| **Adran** | **Pŵer wedi'i roi i** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
|---|---|---|---|---|---|
| 3(2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Caniatáu i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau i nodi mathau o anifeiliaid sydd, neu nad ydynt, i gael eu hystyried yn anifeiliaid gwyllt. | Cadarnhaol | Bydd llunio Rheoliadau i nodi mathau o anifeiliaid sydd, neu nad ydynt, yn rhai i'w hystyried yn wyllt yn effeithio ar y drosedd. |
| 4(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Caniatáu i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau i bennu mathau o ymgymeriad, gweithred, adloniant neu debyg y dylid, neu na ddylid, ei ystyried yn syrcas deithiol. | Cadarnhaol | Bydd llunio Rheoliadau i bennu mathau o ymgymeriad, gweithred, adloniant neu debyg sydd, neu sydd ddim, i'w ystyried yn syrcas deithiol yn effeithio ar y drosedd. |

# RHAN 2 - ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## 6. Crynodeb Asesiad Effaith Rheoleiddiol (AERh)

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y Bil ac mae'n dilyn isod. Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno crynodeb o'r costau a'r manteision ar gyfer y Bil yn gyffredinol. Cynlluniwyd y tabl i gyflwyno'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6 (viii) a (ix).

| **Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)** | | |
|---|---|---|
| **Yr opsiwn a ffefrir: Opsiwn 3: Gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru.** | | |
| **Cam:** Cyflwyno | **Cyfnod arfarnu:** 2020/21 - 2024/25 | **Blwyddyn y sail brisiau:** 2019/20 |
| **Cyfanswm y Gost Cyfanswm: £-3,500 Gwerth presennol: £-2,800** | **Cyfanswm y manteision Cyfanswm: £0 Gwerth presennol: £0** | **Gwerth presennol net: £2,800** |

### Costau gweinyddol

| **Costau:** Nid oes syrcasau teithiol gydag anifeiliaid gwyllt yng Nghymru ond maent yn ymweld. Bydd cost gweithredu fach i Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu canllawiau ar y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru). Byddai cyfanswm cost paratoi canllawiau dwyieithog, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau ei fod yn addas at y diben, tua £5,100. Bydd costau i hysbysu am y gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol hefyd yn disgyn ar Lywodraeth Cymru a byddai hynny'n costio tua £900. Byddai'r holl gostau yn cael eu talu yn 2020-21. | | | |
|---|---|---|---|
| **Pontio: £6,000** | **Rheolaidd: £0** | **Cyfanswm: £6,000** | **Gwerth presennol: £5,800** |
| **Arbedion costau:** Mae'n annhebygol y bydd unrhyw arbedion costau arwyddocaol. Mae aelodau'r cyhoedd a sefydliadau'r trydydd sector wedi lobïo Llywodraeth Cymru am waharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol am nifer o flynyddoedd. Mae ymateb i ohebiaeth reolaidd ar y pwnc hwn yn costio tua £1,900 y flwyddyn i Lywodraeth Cymru. Disgwylir i ohebiaeth ar y pwnc hwn leihau'n sylweddol os yw defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn cael ei wahardd. Dywedodd rhai Awdurdodau Lleol hefyd fod cynnydd mewn gohebiaeth gan y cyhoedd wrth i syrcasau teithiol ymweld, ond nad oeddent yn gallu pennu cost ar yr amser a dreuliwyd yn ymateb. | | | |
| **Pontio: £Amh** | **Rheolaidd: £9,500** | **Cyfanswm: £9,500** | **Gwerth presennol: £8,600** |
| **Y gost weinyddol net a arbedir: £3,500** | | | |

## Costau cydymffurfio

| | | | |
|---|---|---|---|
| Byddai disgwyl i effaith uniongyrchol gwaharddiad ddisgyn ar y ddwy syrcas deithiol yn Lloegr sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ni fu'n bosibl rhoi gwerth ar y gost bosibl o gydymffurfio gan nad yw'r costau hynny'n hysbys. Hwyrach y byddant yn profi gostyngiad mewn refeniw yn y tymor byr, ond bydd graddau'r effaith arnynt yn dibynnu ar nifer o ffactorau a ystyrir yn fanylach ym mharagraffau 8.8 i 8.21. Ni fyddai gorfodi'r Bil yn golygu costau ychwanegol i Awdurdodau Lleol gan y gellid ei gynnal ar y cyd â gweithgareddau gorfodi presennol a gyflawnir mewn perthynas â syrcasau teithiol. Mae torri rheolau yn annhebygol o godi yn aml, os o gwbl. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw gostau ychwanegol canfyddadwy i Heddluoedd Cymru ac ychydig iawn o effaith neu ddim effaith ar y system gyfiawnder. Ar hyn o bryd, ein hamcangyfrif gorau o'r gost i Heddluoedd Cymru a'r system gyfiawnder yw £dim. | | | |
| **Pontio: £0** | **Rheolaidd: £0** | **Cyfanswm: £0** | **Gwerth presennol: £0** |

## Costau eraill

| | | | |
|---|---|---|---|
| Amherthnasol | | | |
| **Pontio: £0** | **Rheolaidd: £0** | **Cyfanswm: £0** | **Gwerth presennol: £0** |

## Costau ac anfanteision na chyfrifwyd

| |
|---|
| Byddai gwariant syrcasau teithiol mewn cymunedau lleol sy'n ymwneud yn benodol ag anifeiliaid gwyllt yn cael ei golli yn y dyfodol, fel y byddai gwariant gan y cyhoedd sy'n mynychu syrcasau i weld anifeiliaid gwyllt yn benodol. Gall syrcasau teithiol ddewis ildio perchnogaeth eu hanifeiliaid gwyllt a byddai unrhyw ostyngiad yn y costau i'r syrcas yn cyfateb yn fras i gynnydd cyfatebol mewn costau i'r perchenogion newydd. Y naill ffordd neu'r llall, yn ddibynnol ar y rhywogaeth a'r defnydd bwriedig, byddai angen i'r perchenogion lynu at ofynion trwyddedu. Mae'n bosibl y byddai swyddi yn cael eu colli yn y diwydiant syrcasau. Nid yw'r costau sydd heb eu cyfrif a chostau'r anfanteision posibl yn hysbys. Mae paragraffau 8.8. i 8.21 yn ystyried y costau sydd heb eu cyfrif a chostau anfanteision o ran effaith y Bil ar syrcasau teithiol, a phe bai syrcasau teithiol yn dewis rhoi'r gorau i gadw anifeiliaid, ar berchenogion newydd yr anifeiliaid hynny. |

## Manteision

| |
|---|
| Mae'r ffordd yr ydym yn trin anifeiliaid yn adlewyrchiad pwysig o werthoedd ein cymdeithas. Mae'n fwyfwy anodd cyfiawnhau cadw anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol a disgwyl iddynt berfformio triciau. Cytunodd mwyafrif y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad na ddylai anifeiliaid gwyllt gael eu gwrthrycholi na'u hystyried yn nwyddau ar gyfer ein diddanu. Bydd gwaharddiad yn cyfrannu at annog agweddau parchus a chyfrifol, yn enwedig agweddau sy'n datblygu ymhlith plant a phobl ifanc, tuag at bob rhywogaeth. Bydd hefyd yn cyfrannu at well canfyddiad o syrcasau teithiol. Byddai'r aelodau hynny o'r cyhoedd sydd yn gwrthwynebu'r arfer yn gallu mynychu syrcasau teithiol gyda hyder, gan wybod na fyddai anifeiliaid gwyllt yn cael eu defnyddio yn y sioe. |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm: £0** | **Gwerth presennol: £0** |

## Tystiolaeth allweddol, rhagdybiaethau ac ansicrwydd

| |
|---|
| Bydd croeso i syrcasau teithiol yng Nghymru o hyd, ar yr amod nad ydynt yn defnyddio anifeiliaid gwyllt. Yn dilyn cyfnod o drawsnewid, dylai'r ddwy syrcas y mae'r gwaharddiad yn effeithio arnynt allu teithio'n llwyddiannus heb eu hanifeiliaid gwyllt. Mae'r nifer fach o anifeiliaid gwyllt sy'n cael eu cadw gan syrcasau teithiol, a'r ffaith bod y nifer yn gostwng, yn awgrymu nad yw eu presenoldeb yn ffactor pwysig wrth benderfynu ar boblogrwydd syrcasau teithiol. Mae cryn dipyn o ansicrwydd ynghylch yr effeithiau ar syrcasau teithiol a diwydiannau cysylltiedig. Ychydig o wybodaeth ychwanegol oedd ar gael yn ystod yr ymgynghoriad ac na fu'n bosibl neilltuo costau ar gyfer yr effeithiau hyn. |

# 7. Opsiynau

7.1 Yr amcan polisi yw gwahardd y defnydd o anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru, ar sail foesegol. Nodir y sail resymegol dros hyn yn y Memorandwm Esboniadol.

7.2 Ystyriwyd tri opsiwn:

**Opsiwn 1:** Dal ati fel arfer - caniatáu i syrcasau teithiol barhau i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt.

**Opsiwn 2**: Cyflwyno cynllun trwyddedu neu gofrestru a fyddai'n caniatáu i syrcasau teithiol barhau i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt, gyda rhai amodau.

**Opsiwn 3:** Gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol.

7.3 Disgrifir pob opsiwn isod ynghyd â, lle bo hynny'n berthnasol, y costau a manteision cysylltiedig. Nid yw'r AERh hwn yn archwilio Opsiynau 1 a 2 yn fanwl oherwydd nad ydynt yn cyflawni'r amcan polisi.

**Opsiwn 1: Dal ati fel arfer - caniatáu i syrcasau teithiol barhau i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt.**

7.4 Nid oes syrcasau teithiol gydag anifeiliaid gwyllt yng Nghymru ond maent yn ymweld. Mae dwy syrcas, Circus Mondao a Syrcas Peter Jolly, yn ymweld â Chymru'n rheolaidd; ymwelodd y ddwy yn 2018, ac mae Circus Mondao yn teithio Cymru eleni (2019). Ar hyn o bryd, mae'n bosibl i syrcasau o dir mawr Ewrop sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt i ymweld â Chymru, yn amodol ar gydymffurfio â rheoliadau symud. Os yw'n ymweld â Lloegr, mae'n rhaid i syrcasau teithiol gydymffurfio â Rheoliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Lloegr) 2012.[30] Yn ôl Defra, nid oes unrhyw syrcasau o'r tu allan i'r DU sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt wedi ymweld ers i'r Rheoliadau ddod i rym.

7.5 Mae'n bosibl y bydd syrcasau teithiol yn y DU, ymhen amser, yn rhoi'r gorau i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt oherwydd cryfder teimlad y cyhoedd. Fodd bynnag, efallai na fyddant, ac os nad oedd pwysau i addasu, gallent barhau i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt, fel y gallai syrcasau teithiol a fyddai'n ymweld â Chymru o rannau eraill o'r byd lle mae adloniant o'r math hwn yn parhau i fod yn boblogaidd.

7.6 Gwaharddodd Llywodraeth yr Alban anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol ym mis Mai 2018, pan ddaeth Deddf Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Yr Alban) 2018[31] i rym. Mae Rheoliadau Lles

[30] Rheoliadau Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Lloegr) 2012 <https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2012/9780111527832/contents>
[31] Deddf Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau sy'n Teithio (Yr Alban) 2018 <https://www.legislation.gov.uk/asp/2018/3/contents>

Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Lloegr) 2012, sy'n weithredol yn Lloegr yn unig, yn dod i ben ar 19 Ionawr 2020. Nid yw Llywodraeth y DU am adnewyddu'r Rheoliadau ac mae am wneud yn siŵr bod deddfwriaeth yn ei lle i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau erbyn y dyddiad y dônt i ben. Cyflwynwyd Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau (Rhif 2) ar 30 Ebrill 2019.[32] Dyddiad dod i rym y Bil yw 20 Ionawr 2020. Os yw'n pasio, ac os nad oes gwaharddiad cyfatebol yng Nghymru, gallai syrcasau sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt barhau i ymweld a gallant hefyd ddewis adleoli i Gymru.

7.7 Ni fyddai dal ati fel arfer yn cyflawni'r amcan polisi. Ni fyddai ychwaith yn dderbyniol i'r aelodau hynny o'r cyhoedd a sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru, sydd wedi lobïo o blaid gwahardd yr arfer hwn.

**Opsiwn 2: Cyflwyno cynllun trwyddedu neu gofrestru a fyddai'n caniatáu i syrcasau teithiol barhau i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt, gyda rhai amodau.**

7.8 Nid oes unrhyw reoliadau penodol ar gyfer lles anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru ond mae eu lles yn dod o dan gwmpas deddfwriaeth ehangach, gan gynnwys Deddf Lles Anifeiliaid 2006[33], Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007[34], Rheoliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Lloegr) 2012 a Deddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoleiddio) 1925 [35]. Ceir rhagor o wybodaeth am bob un o'r rheoliadau hyn yn y Memorandwm Esboniadol.

7.9 Yn 2017 ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gyflwyno cynllun trwyddedu neu gofrestru ar gyfer Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid (MAE), gan gynnwys syrcasau. [36] Mae MAE yn amrywiol ac nid oes unrhyw gyfundrefn drwyddedu safonol neu ofyniad am archwiliad rheolaidd. Gofynnwyd hefyd am farn ar wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol. Cafwyd cefnogaeth aruthrol gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau.

7.10 Mae cynllun trwyddedu ar gyfer MAE bellach yn cael ei ddatblygu a fydd yn darparu ar gyfer gwirio i sicrhau bod safonau lles da yn cael eu cynnal a sicrhau bod anifeiliaid yn cael eu harddangos mewn ffordd sy'n annog agweddau parchus a chyfrifol tuag at bob rhywogaeth. Efallai y bydd syrcasau teithiol sy'n defnyddio anifeiliaid domestig yn

---

[32] www.parliament.uk, Wild Animals in Circuses (No.2) Bill <https://services.parliament.uk/bills/2017-19/wildanimalsincircusesno2.html>
[33] Deddf Lles Anifeiliaid 2006 <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/45/contents>
[34] Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007 <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2007/1047/contents/made/welsh>
[35] Deddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoleiddio) 1925 <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/Geo5/15-16/38>
[36] Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid <https://beta.llyw.cymru/arddangosfeydd-teithiol-o-anifeiliaid>

gymwys i wneud cais am drwydded o dan y cynllun newydd, ac felly'n ymweld â Chymru gyda'u hanifeiliaid sydd wedi eu domestigeiddio.

7.11 Mae canlyniadau ymgynghoriad 2017 yn awgrymu y bydd cynllun trwyddedu ar gyfer MAE yn cael ei groesawu gan lawer, gan gynnwys perchenogion MAE, sefydliadau'r trydydd sector a chyfran helaeth o'r cyhoedd yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw cynllun trwyddedu ar gyfer MAE yn bodloni'r amcan polisi sef gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru; mae aelodau'r cyhoedd a sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru wedi lobïo'n gyson o blaid gwahardd yr arfer hwn.

**Opsiwn 3: Gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol.**

7.12 Ystyriwyd dau lwybr deddfwriaethol i gyflawni'r amcan polisi, y ddau'n cyflwyno risgiau a chyfleoedd. Mae'r rhesymeg ar gyfer y llwybr a ddewiswyd wedi'i grynhoi yma ac wedi'i nodi'n fanylach yn y Memorandwm Esboniadol.

7.13 Mae'r farn gyhoeddus yn gadarn o blaid yr angen i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol er mwyn diogelu eu lles. Er mwyn cyflwyno gwaharddiad gan ddefnyddio pwerau dirprwyedig o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, byddai angen i Weinidogion Cymru fod yn fodlon bod tystiolaeth wyddonol gymhellol yn dangos bod lles anifeiliaid sy'n cael eu cadw mewn syrcasau teithiol yn cael ei beryglu. Ar sail y dystiolaeth wyddonol sydd ar gael ar hyn o bryd, ni ellir profi'n bendant bod lles anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yn well neu'n waeth nag anifeiliaid mewn sefyllfaoedd tebyg. Nid yw hynny'n golygu nad oes unrhyw faterion lles, ond yn hytrach nad oes digon o dystiolaeth wyddonol berthnasol uniongyrchol o'r materion hynny ar gael.

7.14 Fodd bynnag, mae ystyriaethau moesegol ehangach sy'n mynd y tu hwnt i'r cwestiwn a yw lles yr anifeiliaid yn cael ei beryglu. Mae cyrff milfeddygol, mwyafrif y cyhoedd yng Nghymru, sefydliadau'r trydydd sector a Gweinidogion Cymru o'r farn bod defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn annerbyniol yn foesegol ac yn perthyn i oes a fu.

7.15 Wrth i Ddeddf Cymru 2017 ddod i rym, mae'r pŵer gan Weinidogion Cymru i gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru ar sail foesegol.[37] Hwn yw'r opsiwn a ffefrir.

7.16 Mae Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) yn ceisio'i gwneud yn drosedd i ddefnyddio anifail gwyllt mewn syrcas deithiol. Ni fydd y Bil yn effeithio ar ddefnyddio anifeiliaid wedi eu domestigeiddio mewn syrcasau ac ni fydd yn rhwystro pobl rhag defnyddio anifeiliaid gwyllt fel adloniant mewn sefyllfaoedd eraill.

[37] Deddf Cymru 2017 <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2017/4/contents/enacted>

7.17 Bydd gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn anfon neges glir bod ffurfiau adloniant o’r fath yn cael eu hystyried yn anfoesol.

# 8. Costau a manteision

**Opsiwn 1: Dal ati fel arfer – caniatáu i syrcasau teithiol barhau i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt.**

8.1 Dyma'r opsiwn sylfaenol ac felly nid oes unrhyw gostau na buddion ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

***Crynodeb o'r gofynion trwyddedu cyfredol (gan gynnwys ffioedd) a threfniadau arolygu ar gyfer syrcasau teithiol sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt sy'n ymweld â Chymru***

8.2 Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Lloegr) 2012 yn ei gwneud yn ofynnol i bob gweithredwr syrcasau teithiol yn Lloegr sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt gael eu trwyddedu.[38] Gwneir ceisiadau am drwyddedau i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA). Ar ôl gwneud cais, mae ffi o £389.36 yn daladwy am weinyddu'r cais. Codir ffi arolygu ychwanegol hefyd o £72.53 yr awr, am yr amser a dreulir yn cynnal arolygiad, teithio i neu o safle'r arolygiad a'r weinyddiaeth gysylltiedig.[39]. Ar ôl yr arolygiad cyntaf, bydd syrcasau teithiol yn cael o leiaf ddau arolygiad pellach yn ystod y 12 mis y cyhoeddir trwydded ar eu cyfer, yn costio'r un gyfradd â'r arolygiad cyntaf. Bydd un o'r arolygiadau hyn yn ddirybudd. Byddai arolygiad diwrnod llawn (wyth awr) yn costio £580.24 (yn ogystal â gwir gostau teithio a llety, os oes angen). Gan dybio bod tri arolygiad wyth awr (er nad yw pob arolygiad yn para diwrnod cyfan), cyfanswm cost yr archwiliadau, y flwyddyn, yn ogystal â'r ffi ymgeisio flynyddol yn £1813.25 (heb gynnwys costau gwirioneddol teithio a llety, os oes angen).

8.3 Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Lloegr) 2012 yn dod i ben ar 19 Ionawr 2020. Nid yw Llywodraeth y DU am adnewyddu'r Rheoliadau ac mae am wneud yn siŵr bod deddfwriaeth yn ei lle i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau erbyn y dyddiad y dônt i ben. Cyflwynwyd Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau (Rhif 2), fydd yn gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn Lloegr, ar 30 Ebrill 2019. Dyddiad dod i rym y Bil yw 20 Ionawr 2020. Golyga hyn na fydd y costau trwyddedu ac arolygu a ddisgrifir uchod bellach yn cael eu talu gan syrcasau teithiol oherwydd ni fydd caniatâd iddynt ddefnyddio anifeiliaid gwyllt yn Lloegr. Unwaith y bydd gwaharddiad yn cael ei gyflwyno yn Lloegr, os nad yw Llywodraeth Cymru yn gwneud yr un peth, Cymru fyddai'r unig wlad ym Mhrydain lle gallai syrcasau teithiol ddal i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt.

---

[38] Defra, Travelling circus with wild animals: get a licence <https://www.gov.uk/guidance/travelling-circus-with-wild-animals-get-a-licence>

[39] Defra, Rheoliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Lloegr) 2012. Cais am drwydded i weithredu syrcas deithiol yn Lloegr sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt, Canllawiau Ffurflen Gais, Rhagfyr 2012 (Saesneg) <https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69724/watc-form-guidance-20121206.pdf>

Gallai syrcasau teithiol yn Lloegr gadw eu hanifeiliaid gwyllt, ac er na allent eu defnyddio yn Lloegr, nid oes unrhyw ffordd ar hyn o bryd o atal eu defnyddio yng Nghymru.

8.4 Ers 1 Hydref 2018, mae'n rhaid i syrcasau teithiol yn Lloegr sy'n defnyddio anifeiliaid sydd wedi eu domestigeiddio hefyd gael eu trwyddedu o dan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Lloegr) 2018.[40]. Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli ac yn diddymu Deddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoleiddio) 1925[41] yn Lloegr. Awdurdodau Lleol yw'r awdurdod trwyddedu ar gyfer Rheoliadau 2018 ac maent yn codi ffi drwyddedu. Amcangyfrifodd Asesiad Effaith Defra ym mis Rhagfyr 2017 mai cost gyfartalog trwydded o dan Reoliadau 2018 fyddai £138.[42] Mae'r gwir gost yn amrywio rhwng Awdurdodau Lleol a'r math o weithgaredd sy'n cael ei drwyddedu.

8.5 Nid oes cyfundrefn drwyddedu ar gyfer syrcasau yng Nghymru ond mae cynllun trwyddedu ar gyfer MAE yn cael ei ddatblygu. Pe bai unrhyw syrcasau teithiol yng Nghymru, byddai angen iddynt gofrestru gyda'u Hawdurdod Lleol yn unol â gofynion Deddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoleiddio) 1925. Mae'r mwyafrif, ond nid pob Awdurdod Lleol yng Nghymru, yn codi ffi am gofrestru. Ar gyfer y rhai sy'n codi tâl, mae'r ffioedd yn amrywio o £21.00 i £283.41, gyda'r cyfartaledd yn £152.20.[43]

**Opsiwn 2: Cyflwyno cynllun trwyddedu neu gofrestru a fyddai'n caniatáu i syrcasau teithiol barhau i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt, gyda rhai amodau.**

8.6 Mae cynllun trwyddedu ar gyfer MAE yn cael ei ddatblygu. Er y bydd cyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer MAE yn sicrhau y cynhelir safonau lles da ar gyfer anifeiliaid a gedwir ganddynt, gan gynnwys anifeiliaid wedi eu domestigeiddio mewn syrcasau, nid yw'n bodloni'r amcan polisi sef gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru. Nid yw'r opsiwn hwn yn cael ei ystyried ymhellach.

**Opsiwn 3: Gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol.**

8.7 Nid oes syrcasau teithiol gydag anifeiliaid gwyllt yng Nghymru ond maent yn ymweld. Mae'r farn yn tyfu mai rhywbeth o'r oes a fu yw defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau a'i fod yn foesegol annerbyniol. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch Bil Anifeiliaid

---

[40] Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Lloegr) 2018 <https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2018/9780111165485>
[41] Deddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoleiddio) 1925 <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/Geo5/15-16/38>
[42] Cynlluniau Trwyddedu Gweithgareddau Anifeiliaid, Asesiad Effaith, Defra 2017 <https://www.legislation.gov.uk/ukia/2018/71/pdfs/ukia_20180071_en.pdf>
[43] Ffigurau a ddyfynnir yn gywir ar 1 Chwefror 2019

Gwyllt a Syrcasau (Cymru)[44] ac i dri ymgynghoriad llywodraethol blaenorol yn awgrymu cefnogaeth aruthrol i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol.[45] [46] [47]

### *Effaith ar Syrcasau Teithiol*

8.8 Byddai disgwyl i effaith uniongyrchol gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol ddisgyn ar y ddwy syrcas deithiol yn Lloegr sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt ar hyn o bryd. Mae'n anodd ynysu'r effaith ar y ddau fusnes o wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru ac, er ein bod yn credu y bydd yr effaith yn gyfyngedig, ni fu'n bosibl rhoi gwerth ar y gost. O ganlyniad, nid yw'r gost yn hysbys.

8.9 Mae angen i syrcasau sydd wedi'u trwyddedu o dan Reoliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Lloegr) 2012 gyflwyno amserlenni teithio yn nodi eu lleoliad ar unrhyw adeg. Yn ôl amserlenni teithio a gyflwynwyd i APHA, mae Circus Mondao wedi ymweld â Chymru bob blwyddyn ers i'r Rheoliadau ddod i rym ym mis Ionawr 2013. O 2013 i 2018 (cynwysedig), ymwelodd Circus Mondao â rhwng wyth ac 14 safle'r flwyddyn yng Nghymru, mewn 16 ardal awdurdod unedol (gweler tabl 8.9), fel arfer yn aros ym mhob safle am oddeutu wythnos, weithiau'n hirach.

Tabl 8.9: Amserlen deithio Circus Mondao yn ôl ardal awdurdod unedol o 2013 i 2018 (cynwysedig).

| | **Circus Mondao** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | - | X | X | X | X | - |
| Caerffili | X | X | X | X | X | - |
| Sir Gaerfyrddin | - | - | - | X | - | X |
| Ceredigion | X* | X* | X | X* | - | X* |
| Conwy | - | X | X | X | X | X |
| Sir y Fflint | X | - | - | - | - | - |
| Gwynedd | X* | X | X* | X* | X* | X** |
| Ynys Môn | X | X | - | - | - | - |

[44] Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru), Crynodeb o'r Ymatebion <https://llyw.cymru/bil-anifeiliaid-gwyllt-mewn-syrcasau-teithio>
[45] Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid <https://beta.llyw.cymru/arddangosfeydd-teithiol-o-anifeiliaid>
[46] Yr Archifau Cenedlaethol, Defra, Ymgynghoriad ar ddefnyddio Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau, Mawrth 2010 <http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20101109175937/http://www.defra.gov.uk/corporate/consult/circus-wild-animals/>
[47] Llywodraeth yr Alban, Should the use of wild animals in travelling circuses be banned in Scotland?, Consultation Analysis, Mai 2015 <https://www.gov.scot/Resource/0048/00480385.pdf>

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sir Fynwy | X | X | X | - | - | - |
| Castell-nedd Port Talbot | X | X | X | X | - | - |
| Casnewydd | X | - | - | - | - | - |
| Sir Benfro | X* | X* | X* | X* | X | X* |
| Powys | X | X | X | - | - | - |
| Abertawe | - | - | - | X | X | - |
| Bro Morgannwg | X | X | X | X | X | - |
| Wrecsam | - | - | X | - | - | - |
| **Cyfanswm safleoedd yr ymwelwyd â hwy** | **14** | **13** | **13** | **13** | **8** | **9** |

*Ymweld â dau safle oddi mewn i ardal yr awdurdod unedol
**Ymweld â thri safle oddi mewn i ardal yr awdurdod unedol

8.10 Mae Circus Mondao yn teithio Cymru eleni (2019), gan ymweld â Bro Morgannwg, Caerffili, Sir Fynwy, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

8.11 Ymwelodd Syrcas Peter Jolly yn 2014 (tri safle), 2016 (deg safle) and 2018 (pum safle), ar draws chwe ardal awdurdod unedol (gweler tabl 8.11), fel arfer yn aros ym mhob safle am gyfnod o rhwng wythnos a phythefnos.

Tabl 8.11: Amserlen deithio Syrcas Peter Jolly yn ôl ardal awdurdod unedol o 2013 i 2018 (cynwysedig).

| | **Syrcas Peter Jolly** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
| Ceredigion | - | - | - | X | - | - |
| Sir Ddinbych | - | X | - | X | - | X** |
| Sir y Fflint | - | - | - | - | - | X |
| Gwynedd | - | - | - | X** | - | - |
| Powys | - | X | - | X*** | - | X |
| Wrecsam | - | X | - | X | - | - |
| **Cyfanswm safleoedd yr ymwelwyd â hwy** | | **3** | | **10** | | **5** |

*Ymweld â dau safle oddi mewn i ardal yr awdurdod unedol
**Ymweld â thri safle oddi mewn i ardal yr awdurdod unedol
*** Ymweld â phedwar safle oddi mewn i ardal yr awdurdod unedol

8.12 Mae’r ddwy syrcas yng Nghymru am gyfran sylweddol o’u blwyddyn deithiol; ymwelodd Circus Mondao â Chymru bob blwyddyn ers i Reoliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Lloegr) 2012 ddod i rym, a Syrcas Peter Jolly bob yn ail flwyddyn. Ymddengys fod Cymru yn lleoliad teithiol pwysig i Circus Mondao yn arbennig. Fodd bynnag, mae amserlenni teithio Circus Mondao yn awgrymu gostyngiad yn nifer yr ymweliadau â Chymru rhwng 2013 a 2018. Gallai hyn fod o ganlyniad i weithredoedd Awdurdodau Lleol (h.y. gwahardd syrcasau sy’n defnyddio anifeiliaid gwyllt rhag perfformio ar eu tir) neu

gallai adlewyrchu newid chwaeth ymhlith defnyddwyr. Er gwaethaf gostyngiad yn nifer yr ymweliadau, nid yw Circus Mondao yn aros ym mhob safle am gyfnod hirach nag o'r blaen, cyfartaledd o chwe diwrnod yn 2018, o'i gymharu â naw yn 2017, wyth yn 2016, saith yn 2015, wyth yn 2014 a saith yn 2013. Mae Syrcas Peter Jolly hefyd yn treulio llai o amser ar bob safle, gan aros, ar gyfartaledd, bum niwrnod yn 2018, 10 yn 2016 a 12 yn 2014.

8.13 Yn ôl Asesiad Effaith Defra 2012, amcangyfrifodd y ffigurau a roddwyd i Defra yn 2007 fod tua 320,000 o bobl wedi mynychu'r pedair syrcas deithiol oedd yn defnyddio anifeiliaid gwyllt yn y flwyddyn honno.[48] Ar gyfer 2010, amcangyfrifwyd bod ffigurau mynychu ar gyfer y tair syrcas deithiol weithredol oedd yn defnyddio anifeiliaid gwyllt yn 121,000 ac ar gyfer 2011, 153,000. Yn 2011, roedd prisiau tocynnau'n amrywio o £7.50 i £20.

8.14 Yn eu hymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru), honnodd Circus Mondao fod 16,000 ac 20,000 o bobl wedi mynychu eu syrcas pan ymwelodd â Chymru yn 2017 a 2018 yn y drefn honno. Nid oes gennym ffigurau cyfwerth ar gyfer Syrcas Peter Jolly. Yn 2018, roedd tocynnau a hysbysebwyd ar wefannau a/neu gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y ddwy syrcas sy'n dal i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt yn amrywio o £5 i £20. Mae hyn yn awgrymu bod refeniw tocynnau Circus Mondao o deithio yng Nghymru rhwng £100,000 a £400,000 yn 2018. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl penderfynu pa gyfran o'r refeniw hwn y gellir ei briodoli i ddefnydd anifeiliaid gwyllt yn unig na faint o ostyngiad mewn refeniw fydd, os o gwbl, yn dilyn gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt. Nid yw'r gost felly'n hysbys.

8.15 Nid yw'r rhan fwyaf o syrcasau teithiol yn defnyddio anifeiliaid gwyllt. Yn ôl Cymdeithas Perchenogion Syrcasau Prydain Fawr, mae mwy na thri deg o syrcasau'n teithio o gwmpas Prydain bob blwyddyn.[49] Yn 2018, roedd tocynnau a hysbysebwyd ar wefannau a/neu gyfrifon cyfryngau cymdeithasol pymtheg o'r syrcasau hyn, y mae rhai ohonynt yn defnyddio anifeiliaid wedi eu domestigeiddio, yn amrywio o £7.15 i £33.20, gyda phris cyfartalog safonol tocynnau oedolion ychydig dros £20. Awgryma hyn nad oes 'premiwm' i'w gael o ddefnyddio anifeiliaid gwyllt ac mae syrcasau'n gallu gweithredu'n llwyddiannus hebddynt. Os gweithredir gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol, yn dilyn cyfnod o drawsnewid, dylai'r ddwy syrcas sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt ar hyn o bryd allu parhau i deithio yn llwyddiannus yng Nghymru heb unrhyw effaith sylweddol ar refeniw.

8.16 Er gwaethaf cefnogaeth aruthrol i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol, ni ellir anwybyddu'r ffaith y gallai rhai pobl fod yn mynychu syrcasau yn benodol i weld anifeiliaid, gan gynnwys

[48] Defra, Ending the use of wild animals in travelling circuses, Impact Assessment (2012) <http://www.legislation.gov.uk/ukia/2012/41/pdfs/ukia_20120041_en.pdf>
[49] Cymdeithas Perchenogion Syrcasau Prydain Fawr <http://www.circusgb.com/index.html>

anifeiliaid gwyllt, yn perfformio. Dyma oedd barn rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Heb anifeiliaid gwyllt yn perfformio neu'n cael eu harddangos, mae'n bosibl y gallai syrcasau teithiol golli eu hapêl i rai pobl ac y bydd llai o bobl yn mynychu. I'r gwrthwyneb, mae'n bosibl y bydd absenoldeb anifeiliaid gwyllt o syrcasau teithiol yn gwella canfyddiad y cyhoedd o'r diwydiant ac yn cyfrannu at boblogrwydd cynyddol, dros amser. Mae hefyd yn bosibl y byddai mwy o Awdurdodau Lleol yn caniatáu syrcasau teithiol nad ydynt yn defnyddio anifeiliaid gwyllt i ddefnyddio tir yr Awdurdod Lleol. Nid yw'n bosibl gwybod pa senario fydd yn dod i'r amlwg, ac efallai na fydd unrhyw effaith o gwbl, ond mae nifer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn awgrymu'r ail senario, gyda chanlyniad positif ar gyfer syrcasau teithiol. Nid yw cost yr effaith yn hysbys.

8.17 O dan y cynigion, ni fyddai gofyn i syrcasau teithiol ildio perchnogaeth eu hanifeiliaid gwyllt ond ni fyddent yn cael eu defnyddio yng Nghymru. Gall syrcasau teithiol ddewis cadw perchnogaeth ar eu hanifeiliaid gwyllt a'u cartrefu ar sail barhaol. Felly, ni fydd costau'r syrcasau o ran gofalu am yr anifeiliaid o reidrwydd yn lleihau, ond efallai y bydd arbedion o ran costau cludiant, hyfforddi ac offer arbenigol cysylltiedig nad oes ei angen mwyach. Mae pob syrcas deithiol yn cynnal "rhestr stoc" o'i hanifeiliaid gwyllt. Mae hyn yn ofynnol o dan Reoliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Lloegr) 2012. Mae anifeiliaid gwyllt a gynhwysir ar y rhestrau stoc wedi'u heithrio o ofynion Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976[50], sy'n pennu'r angen am drwydded i gadw rhai anifeiliaid gwyllt. Gall unrhyw syrcas deithiol sydd yn dewis cadw ei hanifeiliaid gwyllt fod angen trwydded o dan Ddeddf 1976 i wneud hynny. Awdurdodau Lleol yw'r awdurdod trwyddedu o dan Ddeddf 1976 ac maent yn codi ffi trwyddedu (mae ffioedd yn amrywio).

8.18 Lle dewisodd syrcas ildio perchnogaeth, byddai disgwyl i unrhyw ostyngiad yn y costau i'r syrcas gael ei gyfateb yn fras gan gynnydd cyfatebol mewn costau i'r perchenogion newydd, heb gyfrif y costau sy'n gysylltiedig â chludiant rheolaidd, hyfforddi ac offer arbenigol cysylltiedig nad oes ei angen mwyach. Yn dibynnu ar y rhywogaeth a'r defnydd bwriedig, efallai y bydd rhai gofynion trwyddedu y byddai'n ofynnol i'r perchenogion newydd lynu atynt.

8.19 Mae unrhyw benderfyniad gan syrcasau teithiol ynghylch dyfodol eu hanifeiliaid gwyllt yn debygol o gael ei ddylanwadu gan gyflawniad Llywodraeth y DU o'i hymrwymiad i wahardd eu defnyddio. Gall y ddwy syrcas deithiol sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt ddewis cadw eu hanifeiliaid os yw'r arfer yn parhau'n gyfreithlon yn Lloegr. Fodd bynnag, mae hyn yn annhebygol gyda chyflwyniad Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau (Rhif 2) ar 30 Ebrill 2019.

---

[50] Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1976/38>

8.20 Yn 2009, cynhaliodd Defra Asesiad Effaith ar reoleiddio perfformiadau anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol.[51] Roedd yr Asesiad Effaith yn ystyried yn fanwl y gost o ailgartrefu anifeiliaid syrcas, gan gynnwys costau un tro ail-gartrefu a gofalu am anifeiliaid sydd wedi cael eu hailgartrefu, ar gyfer y 39 o anifeiliaid gwyllt oedd yn cael eu defnyddio gan y pedair syrcas oedd yn y Deyrnas Unedig ar y pryd. Yn hanfodol, dim ond y gost i sefydliadau lles o ailgartrefu'r anifeiliaid oedd yn cael ei ystyried yn yr Asesiad Effaith, ac nid symud neu werthu'r anifeiliaid hynny i fusnes arall a allai fynd ymlaen i elwa o fod yn berchen arnynt e.e. sw neu hyfforddwr sy'n darparu anifeiliaid ar gyfer y diwydiant teledu/ffilm, neu fath arall o Arddangosfa Deithiol o Anifeiliaid. Barn y sefydliadau lles yr ymgynghorwyd â hwy ar y pryd oedd y gellid dod o hyd i gartrefi ar gyfer yr holl anifeiliaid yn y DU, Ewrop a thu hwnt. Yn ôl Asesiad Effaith 2009, roedd yr anifeiliaid gwyllt a gadwyd gan syrcasau yn cynnwys cathod mawr (13), eliffantod (2) a chrocodeiliaid (2). Mae'r rhain yn rhywogaethau â gofynion penodol iawn; mae angen cyfleusterau addas a chryn dipyn o arbenigedd a gwybodaeth i ofalu amdanynt. Nid oes yr un o'r rhywogaethau hyn yn cael eu cadw ar hyn o bryd gan y ddwy syrcas deithiol sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt (mae'r rhywogaethau a gedwir yn cynnwys sebra, camel, zebu (math o wartheg), carw Llychlyn, racŵn, cadno a macaw, yn ogystal â rhywogaethau domestig) ac mae'n rhesymol i feddwl pe bai'r naill neu'r llall yn penderfynu ailgartrefu eu hanifeiliaid o ganlyniad i gyflwyno gwaharddiad yng Nghymru, y gallent wneud hynny'n gymharol ddidrafferth.

8.21 Pe bai anifeiliaid yn cael eu hailgartrefu, byddai arbedion ariannol i syrcasau na fyddai'n talu am ofalu am yr anifeiliaid gwyllt hynny mwyach. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai swyddi yn cael eu colli yn y diwydiant syrcas. Yn yr un modd, efallai y bydd syrcasau'n wynebu costau o gael gwared ar seilwaith nad oes ei angen mwyach. Nid yw'n bosibl cyfrifo'r costau posibl hyn i syrcasau teithiol os daw gwaharddiad i rym, hynny oherwydd diffyg data Ni chyflwynwyd unrhyw wybodaeth ariannol yn ystod yr ymgynghoriad. Nid yw'r costau (neu'r arbedion) yn hysbys.

### *Effaith ar Economi Leol*

8:22 Bydd syrcasau teithiol yn gwario mewn cymunedau lleol. Nid yw'r union wariant yn hysbys, ond mae'n debyg y byddant yn talu rhent tir, yn prynu bwyd anifeiliaid neu wasarn yn lleol (os nad ydynt yn eu cario gyda hwy) ac unrhyw ofal milfeddygol sydd ei angen. Gallai gwariant posibl arall gynnwys hysbysebu lleol a llogi llafur achlysurol. Byddai unrhyw wariant lleol gan syrcasau teithiol sy'n ymwneud yn benodol â'u hanifeiliaid gwyllt yn cael ei golli yn y dyfodol. Mae costau'n anodd eu

[51] Yr Archifau Cenedlaethol, Defra, Impact Assessment on the regulation of wild animal acts in travelling circuses, Rhagfyr 2009 <http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20100713153701/http://www.defra.gov.uk/corporate/consult/circus-wild-animals/impact-assessment.pdf>

meintioli, gan na chyflwynwyd unrhyw wybodaeth yn ystod yr ymgynghoriad, ond mae'n debygol y bydd unrhyw effaith ar economïau lleol yn lleihau o gofio bod syrcasau teithiol sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt yn treulio llai o amser yng Nghymru.

8:23 Mae mathau o wariant gan y cyhoedd sy'n mynychu syrcasau yn cynnwys gwario i fynychu'r digwyddiad e.e. tocynnau, parcio; gwariant ar nwyddau a bwyd/diod tra yn y digwyddiad; a gwario ar nwyddau traul eraill, cyn ac ar ôl y digwyddiad e.e. costau teithio a bwyd/diod. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd lefel uchel o ddadleoliad yn gysylltiedig â'r gwariant hwn. Mae mwyafrif y bobl sy'n mynychu syrcasau yn debygol o fod yn deuluoedd lleol y byddai disgwyl iddynt, os nad yn mynychu'r syrcas, gymryd rhan mewn gweithgaredd hamdden amgen yn lleol, gan ysgwyddo'r costau sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd hwnnw yn lle hynny. Felly, ni ellir dweud y byddai gostyngiad mewn gwariant ar fynychu syrcasau o reidrwydd yn cynrychioli colled i'r economi leol. Nid yw'n bosibl cyfrifo'r costau posibl i'r economi leol ac felly, nid yw'r costau'n hysbys.

***Y Diwydiant Teledu a Ffilm***

8.24 Cyflwynodd Cynghrair y Cynhyrchwyr Sinema a Theledu (Pact) ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru). Pact yw'r gymdeithas fasnach sy'n cynrychioli buddiannau masnachol y sector teledu, ffilm, digidol a chynyrchiadau plant ac animeiddio annibynnol yn y DU. Yn ôl eu hymateb i'r ymgynghoriad, mae gan Pact tua 500 o aelodau ledled y DU, gyda thua 20 o gwmnïau wedi'u lleoli yng Nghymru. Mae aelodau PACT yn cynhyrchu rhaglenni ar gyfer ystod o ddarlledwyr yn y DU ac yn rhyngwladol, gan gynnwys ar gyfer y BBC, BBC Cymru, Channel 4 ac S4C yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn ôl Pact, mae sector teledu annibynnol y DU yn un o'r mwyaf yn y byd gyda refeniw wedi tyfu o £1.3 biliwn yn 2005 i tua £2.7 biliwn yn 2017.

8:25 Mae Pact yn cydnabod y pryderon moesegol a lles ynghylch defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol, ac amcanion moesegol arfaethedig Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru). Fodd bynnag, maent yn pryderu y gall gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol gael canlyniadau anfwriadol i'r diwydiant teledu a ffilm. Mae pryderon yn ymwneud â sut y gellir dehongli'r Bil i gynnwys y diwydiant teledu a ffilm ac i ddod o hyd i anifeiliaid addas.

8.26 O ran dehongli, cododd Pact bryderon tebyg gyda Llywodraeth yr Alban ynghylch y diffiniadau o "anifail gwyllt" a "syrcas deithiol" yn Neddf Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Yr Alban). Mae canllawiau i'r Ddeddf honno, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2018, yn cynnwys enghreifftiau o fathau o ymgymeriadau, gweithredoedd, adloniant neu bethau tebyg na fyddai'n gyffredinol yn cael eu hystyried o fewn ystyr arferol syrcas deithiol: yn eu plith mae anifeiliaid a ddefnyddir ar gyfer teledu, ffilm neu hysbysebion, o gyn-gynhyrchu i ôl-

gynhyrchu. [52] Nid yw'n fwriad gan Lywodraeth Cymru i'r ddeddfwriaeth hon gwmpasu'r diwydiant teledu a ffilm, a gellir cynnwys darpariaeth debyg yng nghanllawiau'r i'r Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru), pe bai'n dod yn gyfraith.

8.27 Mae ail bryder Pact yn ymwneud â dod o hyd i anifeiliaid sydd wedi'u hyfforddi'n briodol. Os yw anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn cael eu gwahardd, maent yn awgrymu y bydd yn rhaid dod o hyd i rai anifeiliaid o syrcasau dramor o bosibl. Fel arall, byddai angen defnyddio effeithiau gweledol wrth ôl-gynhyrchu neu gallai cwmnïau fynd â chynyrchiadau dramor.

8.28 Cred Llywodraeth Cymru y bydd unrhyw effaith yn fach iawn o ystyried mai nifer bychan o gynyrchiadau sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt ac mai dim ond dwy syrcas o Brydain sy'n cadw amrywiaeth gyfyngedig o rywogaethau. Mae'n debygol bod anifeiliaid addas eisoes yn dod o rywle arall.

8.29 Mewn ymateb i ddiffyg darpariaeth gwybodaeth ariannol gan ymatebwyr i ymgynghoriad 2014 ar wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol[53], ymgynghorodd Llywodraeth yr Alban â rhai ymatebwyr unwaith eto, gan ofyn cwestiynau ariannol penodol. Gofynnodd Llywodraeth yr Alban os oeddent yn ystyried y gallai gwaharddiad ar anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol gael effaith ar ddiwydiannau eraill ac, os felly, pa ddiwydiannau, a beth fyddai'r effaith a pham? Y diwydiannau a ystyriwyd oedd ffilm, drama ar deledu, rhaglenni dogfen ar deledu, teledu plant, hysbysebion teledu, hysbysebu eraill, a diwydiannau eraill. Ym mhob achos, roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn y byddai naill ai'n cael effaith gadarnhaol neu'n cael dim effaith. Fodd bynnag, teimlai rhai ymatebwyr y byddai cael gwared ar gyflenwad parod o anifeiliaid gwyllt hyfforddedig yn niweidiol i ddiwydiannau ffilm a theledu'r DU. Roedd Llywodraeth yr Alban o'r farn bod defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn ffilmiau yn ddigon cadarn yn foesegol i beidio â chael ei effeithio gan ôl-effeithiau gwaharddiad ar anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol.[54] Mae Llywodraeth Cymru yn rhannu'r farn hon. Ein hamcangyfrif gorau felly o effaith y Bil ar y diwydiant ffilm a theledu yw £dim.

---

[52] Llywodraeth yr Alban, Guidance on the Wild Animals in Travelling Circuses (Scotland) Act 2018, Mai 2018 <https://www.gov.scot/publications/guidance-wild-animals-travelling-circuses-scotland-act-2018/>

[53] Llywodraeth yr Alban, Should the use of wild animals in travelling circuses be banned in Scotland - Consultation Analysis, Mai 2015 <https://www2.gov.scot/Resource/0048/00480385.pdf>

[54] Llywodraeth yr Alban, Asesiad Effaith Busnes a Rheoleiddiol – Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Yr Alban), 2014 <https://www.gov.scot/publications/business-regulatory-impact-assessment-bria-wild-animals-travelling-circuses-scotland/>

### *Effaith ar Awdurdodau Lleol*

8.30 Mae syrcasau teithiol a drwyddedwyd yn Lloegr dan Reoliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Lloegr) 2012 yn cael eu harchwilio'n rheolaidd gan APHA. Gan nad hwy yw'r awdurdod trwyddedu, nid oes gofyniad ar Awdurdodau Lleol yng Nghymru i archwilio syrcasau teithiol yn rheolaidd. Er hynny, mae rhai yn dewis eu harchwilio'n rheolaidd. Mae rhwymedigaeth statudol ar Awdurdodau Lleol hefyd i archwilio unrhyw adroddiadau o broblemau lles anifeiliaid posibl neu bryderon eraill.

8.31 Er mwyn deall pa effaith mae ymweliadau gan syrcasau teithiol gydag anifeiliaid gwyllt yn eu cael ar Awdurdodau Lleol, a sut y gallai hynny newid os yw defnyddio anifeiliaid gwyllt yn cael ei wahardd, cysylltwyd ag Awdurdodau Lleol a gofynnwyd iddynt ymateb i'r ymgynghoriad. Ymatebodd dau Awdurdod Lleol. Cysylltwyd yn uniongyrchol â thri arall a oedd wedi cael ymweliadau gan syrcasau teithiol i'w ardaloedd gweinyddol yn y ddwy flynedd ddiwethaf (2017 a 2018) i drafod yr effeithiau.

8.32 Adroddodd rhai Awdurdodau Lleol am gynnydd mewn gohebiaeth gan y cyhoedd, gan gynnwys ceisiadau am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth, wrth i syrcasau teithiol ymweld. Mae ymateb i ohebiaeth yn cymryd llawer o amser a byddai disgwyl i'r amser a dreulir yn ymateb leihau pe bai defnyddio anifeiliaid gwyllt yn cael ei wahardd. Nid oedd yr Awdurdodau Lleol a nododd gynnydd mewn gohebiaeth yn gallu pennu cost i'r amser a dreuliwyd yn gweithio ar ymatebion. O ganlyniad, nid yw'r arbediad cost hwn yn hysbys.

8.33 Ni fydd gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn cael fawr ddim effaith ar arolygiadau a wnaed eisoes gan Awdurdodau Lleol. Nododd yr Awdurdodau Lleol hynny sy'n arolygu syrcasau teithiol yn rheolaidd y byddent yn parhau i wneud hynny fel rhan o weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â syrcasau, er enghraifft swyddogaethau Awdurdodau Lleol o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, Deddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoliadau) 1925 neu eu swyddogaethau yn ymwneud â thrwyddedu adloniant cyhoeddus. Mae Awdurdodau Lleol hefyd yn gwirio cydymffurfiaeth â rheolau symud rhai rhywogaethau domestig[55] ac efallai y bydd ganddynt rôl yn y cynllun trwyddedu sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid. Darparodd dau Awdurdod Lleol gostau ar gyfer amser staff sydd yn cynnal archwiliadau o £45- £53 yr awr (heb gynnwys costau teithio). Pe bai angen i filfeddyg fod yn bresennol, roedd y costau'n amrywio o £400-£650 y dydd. Fodd bynnag, ni ddisgwylir y bydd unrhyw gostau archwilio yn sgil y Bil.

---

[55] Llywodraeth Cymru, Cofrestru a Symudiadau Anifeiliaid <https://llyw.cymru/cofrestru-a-symudiadau-anifeiliaid>

8.34 Pan adroddodd Awdurdodau Lleol iddynt gynnal archwiliadau yn dilyn adroddiadau ar faterion lles posibl, mewn anifeiliaid gwyllt ac anifeiliaid wedi eu domestigeiddio, ni ddarganfuwyd unrhyw broblemau lles.

8.35 Bydd unrhyw achos o dorri'r gwaharddiad arfaethedig yn gymharol hawdd i'w ganfod fel rhan o arolygiad. Rhagwelir y bydd mynd yn groes i ddarpariaethau'r Bil, naill ai drwy dorri'r gwaharddiad neu drwy rwystro arolygydd yn fwriadol wrth arfer eu dyletswydd, yn brin. Yr amcangyfrif gorau o gost archwilio tramgwyddau felly yw £dim.

8.36 Er mai pwrpas y Bil yw gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol, bydd syrcasau'n cael cadw anifeiliaid gwyllt o hyd cyn belled nad ydynt yn cael eu defnyddio mewn perfformiadau na'u dangos fel rhan o'r syrcas deithiol. Mae'r Bil yn newid y drefn drwyddedu ar gyfer syrcasau trwy ddileu'r esemptiadau rhag gofynion trwyddedu Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 a Deddf Trwyddedu Swau 1981 (gweler paragraffau 3.50 a 3.51 y Memorandwm Esboniadol) a ganiateir i syrcasau. Bydd angen trwydded o dan Ddeddf 1976 ar unrhyw syrcas deithiol neu sefydlog sy'n cadw ond nad yw'n defnyddio anifail gwyllt peryglus, oni daw o dan ddarpariaethau Deddf 1981. Awdurdodau lleol yw'r awdurdodau trwyddedu o dan y ddwy Ddeddf ac maent yn codi ffi trwyddedu. Mae ffioedd yn amrywio ac mae'r ddwy Ddeddf yn caniatáu i Awdurdodau Lleol godi ffi sy'n ddigon i dalu am y costau a ysgwyddir o ganlyniad i gais. Nid syrcasau o Gymru yw'r syrcasau sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt ac mae'n amhosibl gwybod a wnaiff syrcas, boed deithiol neu sefydlog, y bydd angen trwydded arni, sefydlu yng Nghymru yn y dyfodol. Nid ydym wedi cael gwybodaeth sy'n awgrymu bod hyn yn fwriad gan y naill syrcas deithiol na'r llall. Yr amcangyfrif gorau o'r gost i Awdurdodau Lleol yn sgil y newidiadau i'r ddeddfwriaeth ynghylch trwyddedu syrcasau felly yw £dim.

### *Effaith ar Heddluoedd*

8.37 Gofynnwyd i bedwar heddlu Cymru pa effaith a gafodd syrcasau teithiol ar eu hadnoddau o 2013-2018 (cynwysedig) ers i Reoliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Lloegr) 2012 ddod i rym yn 2013.

8.38 Dim ond un achos o brotestio mewn syrcas deithiol y mae Heddlu Gwent yn ymwybodol ohono. Rhwng 9 a 13 Mai 2018, roedd Circus Mondao wedi'i leoli ar Gwrs Rasio Cas-gwent, Cas-gwent a chynhaliodd rhwng pump a phymtheg o bobl brotestiadau dyddiol. Disgrifiwyd y rhain fel rhai heddychlon ar y cyfan, gyda phlacardiau'n cael eu harddangos a phrotestwyr yn ceisio ymgysylltu gydag ymwelwyr i'r syrcas wrth iddynt gyrraedd/gadael. Dywedodd Heddlu Gwent nad oedd ymateb penodol gan yr heddlu ar wahân i swyddogion a oedd yn bresennol tra'n patrolio'r ardal (ond heb fod yno'n benodol i blismona'r brotest) ac felly nid ydynt wedi darparu

unrhyw gostau gan fod hynny'n rhan o'u dyletswyddau cyffredinol.

8.39 Nid oedd Heddlu Dyfed-Powys yn ymwybodol o unrhyw brotestiadau yn ardal yr heddlu. O ran costau posibl, dywedodd Heddlu Dyfed-Powys ei bod yn anodd pennu cost ar unrhyw brotest bosibl gan y byddai'r ymateb plismona'n cael ei bennu gan nifer y mynychwyr a'u gweithgareddau. Dywedodd Heddlu Gogledd Cymru a Heddlu De Cymru nad oedd unrhyw gostau wedi codi ac na chafodd presenoldeb syrcasau teithiol yn eu hardaloedd heddlu unrhyw effaith arnynt.

8.40 Ni fyddai gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn debygol o arwain at unrhyw gostau ychwanegol canfyddadwy i Heddluoedd yng Nghymru. Yr amcangyfrif gorau o'r effaith ar Heddluoedd Cymru felly yw £dim.

***Effaith ar y System Gyfiawnder***

8.41 Bydd Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) yn creu trosedd newydd. Bydd person sy'n weithredwr syrcas yn cyflawni trosedd os yw'n defnyddio, neu'n achosi neu'n caniatáu i berson arall ddefnyddio anifail gwyllt mewn syrcas deithiol. Mae person sy'n euog o drosedd o'r fath yn agored, ar euogfarn ddiannod, i ddirwy ddiderfyn.

8.42 Mae effeithiau disgwyliedig ar y system cyfiawnder troseddol wedi cael eu hystyried gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn rhagweld na fyddai fawr ddim neu ddim effaith ar y system gyfiawnder. Yr amcangyfrif gorau o'r effaith ar y System Gyfiawnder felly yw £dim.

***Effaith ar Lywodraeth Cymru***

8.43 Mae cyfran o aelodau'r cyhoedd a nifer o sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru wedi lobïo am wahardd yr arferiad hwn, ac mae Llywodraeth Cymru, am nifer o flynyddoedd, wedi derbyn llythyru cyson i'r perwyl hwnnw. Ymatebodd swyddogion Llywodraeth Cymru i 39 llythyr/e-bost ar y pwnc hwn yn 2016, 22 yn 2017 a 13 yn 2018. Ymgynghorodd Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ar y pryd, ar Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid (MAE) yn 2017 a chyhoeddwyd ei bwriad i archwilio cyfleoedd i gyflwyno deddfwriaeth i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yng Nghymru ym mis Chwefror 2018[56], gan ymgynghori ar y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) yn ddiweddarach y flwyddyn honno. Gellid priodoli'r gostyngiad mewn gohebiaeth a dderbyniwyd ar y pwnc hwn, o 2016 i 2018, i'r ffactorau hyn, gydag aelodau o'r cyhoedd a sefydliadau trydydd sector yn dewis ymateb i'r ymgynghoriadau yn lle hynny. Cafwyd 962 o ymatebion i ymgynghoriad MAE, gydag 892 ohonynt yn ateb y cwestiwn ar

[56] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig – Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid <https://beta.llyw.cymru/arddangosfeydd-teithiol-o-anifeiliaid>

wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yn unig, a chafwyd 6,546 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru). Gall ymateb i ohebiaeth gymryd llawer o amser, gyda phob ymateb, ar gyfartaledd, yn cymryd hanner diwrnod o amser Swyddog Gweithredol (SG) neu Swyddog Gweithredol Uwch (SGU), ar gyfradd ddyddiol o £135 neu £175 yn y drefn honno. Gan dybio bod rhaniad 50/50 rhwng SG a SGU, mae ymateb i ohebiaeth ar y pwnc hwn wedi costio £1,900 y flwyddyn i Lywodraeth Cymru am y tair blynedd diwethaf (2016-2018 cynwysedig). Disgwylir i ohebiaeth ar y pwnc hwn leihau'n sylweddol os yw defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn cael ei wahardd. Ni ellir diystyru cynnydd mewn gohebiaeth oddi wrth y rhai sy'n gwrthwynebu gwaharddiad, neu'r rhai sy'n galw am ymestyn gwaharddiad i rywogaethau wedi eu domestigeiddio, ond mae hyn yn annhebygol o fod yn agos at yr un raddfa. Nid yw'r costau sy'n gysylltiedig â hyn felly yn hysbys.

8.44 Bydd cost gweithredu fach i Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu canllawiau ar y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru). Rhagwelir y bydd datblygu canllawiau, yn seiliedig ar amcangyfrif o 5,000 o eiriau, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau ei fod yn addas i'r diben, yn cymryd tua phedair wythnos dros gyfnod o dri mis o amser Swyddog Gweithredol Uwch, sy'n cyfateb i £3,500. Bydd y canllawiau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Byddai cyfieithu a dylunio yn cymryd hyd at bythefnos i'w cwblhau. Byddai cyfieithu yn cymryd tua wythnos o amser Swyddog Gweithredol Uwch, sy'n cyfateb i £900. Byddai angen tua wythnos o amser dylunio ar gyfer dylunio, a fyddai'n cyfateb i £700. Byddai canllawiau'n cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a'u rhannu'n electronig ag Awdurdodau Lleol. Ni fyddai unrhyw gostau argraffu a dosbarthu. Byddai'r holl gostau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu canllawiau yn cael eu talu yn 2020-21. Cyfanswm cost paratoi canllawiau fyddai tua £5,100.

8.45 Bydd costau i hysbysu'r gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol hefyd yn disgyn ar Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynnwys rhoi cyhoeddusrwydd i'r newid i'r busnesau yr effeithir arnynt, er enghraifft trwy bost uniongyrchol, cyhoeddi Hysbysiadau i'r Wasg a defnyddio cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Disgwylir y bydd hyn, ar y mwyaf, yn cyfateb i wythnos o amser Swyddog Gweithredol Uwch, sy'n cyfateb i £900.

8.46 Mae'r dadansoddiad a gyflwynir yn yr AERh hwn yn seiliedig ar y diffiniadau cyfredol a dderbynnir yn eang ar gyfer "anifeiliaid gwyllt" a "syrcasau teithio". Fel yr eglurir yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddiwygio'r diffiniadau hyn drwy is-ddeddfwriaeth os bydd tystiolaeth yn y dyfodol yn dod i'r amlwg i gefnogi newid/gwneud newid yn ofynnol. Nid oes unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r pwerau hyn ar fyrder. Ar hyn o bryd, yr amcangyfrif gorau o'r costau sy'n gysylltiedig â'r is-ddeddfwriaeth yw sero. Bydd AERh yn cyd-fynd ag unrhyw is-ddeddfwriaeth yn y dyfodol sy'n diwygio'r

diffiniad o “anifeiliaid gwyllt” a/neu “syrcasau teithiol”.

***Manteision***

8.47 Mae’r ffordd yr ydym yn trin anifeiliaid yn adlewyrchiad pwysig o werthoedd ein cymdeithas. Mae barn gref na ellir diwallu anghenion lles anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol. Daeth yr adolygiad gan yr Athro Stephen Harris *et al* (‘Adolygiad Harris’) i’r casgliad na ellir bodloni anghenion lles anifeiliaid gwyllt mewn amgylcheddau teithio i’r un graddau ag mewn amgylcheddau sefydlog, a bod bywyd i anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol *“does not appear to constitute either a ‘good life’ or a ‘life worth living’.”*[57]

8.48 Mae diffyg tystiolaeth bendant bod lles yn cael ei gyfaddawdu i raddau mwy mewn syrcasau teithiol nag mewn unrhyw amgylchedd ‘artiffisial’ arall ac, o ystyried y nifer cymharol fach o anifeiliaid dan sylw, mae’n amheus y byddai canlyniadau unrhyw ymchwil pellach yn ddigon ystyrlon a chadarn i lywio’r ddadl yn well. Fodd bynnag, mae ystyriaethau moesegol ehangach sy’n mynd y tu hwnt i gwestiynu a yw lles yr anifeiliaid yn cael ei beryglu. Mae cyrff milfeddygol, rhai sefydliadau’r trydydd sector, Gweinidogion Cymru a nifer aruthrol o aelodau’r cyhoedd yng Nghymru a ymatebodd i’r ymgynghoriad o’r farn bod defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn annerbyniol yn foesegol ac yn syniad sy’n perthyn i oes a fu. Mae deisebau sy’n galw am waharddiad wedi cael eu hystyried ddwywaith gan Bwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.[58] [59]

8.49 Yn 2017, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gyflwyno cynllun trwyddedu neu gofrestru ar gyfer Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid. Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn hefyd ynghylch gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau. Cafwyd cefnogaeth aruthrol i waharddiad gan ymatebwyr. Adleisiodd yr ymatebion i’r ymgynghoriad y rheini a gyflwynwyd i ymgynghoriadau blaenorol ar y pwnc hwn gan Lywodraethau’r DU a’r Alban yn y drefn honno. Yn 2018, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) drafft. Unwaith eto, roedd cefnogaeth aruthrol i waharddiad: mae naw deg saith y cant o’r ymatebwyr yn cefnogi’r cynnig i gyflwyno deddfwriaeth a fyddai’n ei gwneud yn drosedd i anifail gwyllt gael ei ddefnyddio mewn syrcas deithiol (gweler adran 4 y Memorandwm Esboniadol).

8.50 Mae’n fwyfwy anodd cyfiawnhau cadw anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol a disgwyl iddynt berfformio triciau. Mae’n amlwg o’r ymatebion i’r ymgynghoriad bod y rhan fwyaf o bobl yn cytuno na ddylai anifeiliaid

---

[57] Harris *et al*. (Ebrill 2016). The Welfare of Wild Animals in Travelling Circuses <https://llyw.cymru/lles-anifeiliaid-gwyllt-mewn-syrcasau-teithiol>
[58] NAW, P-04-653 Gwahardd y Defnydd o Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau yng Nghymru <http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=13740&Opt=0>
[59] Cynulliad Cenedlaethol Cymru (7 Mawrth 2018) <http://record.assembly.wales/Plenary/4911?lang=cy-GB>

gwyllt gael eu gwrthrycholi na’u hystyried yn nwyddau ar gyfer ein diddanu, ond yn hytrach eu hystyried yn fodau teimladwy gyda’u hanghenion unigryw eu hunain.

8.51 Mae Llywodraeth Cymru yn pryderu am yr effaith y mae gweld anifeiliaid gwyllt yn perfformio mewn syrcasau teithio, ar gyfer adloniant yn unig, yn ei chael ar agweddau pobl tuag at anifeiliaid. Bydd gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yn cyfrannu at annog agweddau parchus a chyfrifol, yn enwedig agweddau sy’n datblygu ymhlith plant a phobl ifanc, tuag at bob rhywogaeth. Roedd naw deg saith y cant o’r ymatebwyr i’r ymgynghoriad yn cytuno y byddai gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau plant a phobl ifanc at anifeiliaid.

8.52 Yn sgil gweithredu Deddf Cymru 2017, mae’r pŵer gan Weinidogion Cymru i gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i wahardd y defnydd o anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru. Cyflwynwyd gwaharddiadau yng Ngweriniaeth Iwerddon a’r Alban yn 2018, ac mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno deddfwriaeth gyda’r bwriad o wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn Lloegr pan ddaw Rheoliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Lloegr) 2012 i ben ym mis Ionawr 2020. Pe na bai gwaharddiad cyfatebol yng Nghymru, Cymru fyddai’r unig wlad ym Mhrydain fyddai’n dal i ganiatáu defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol; gallent barhau i ymweld neu hyd yn oed adleoli i Gymru.

8.53 Bydd gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt yn cyfrannu at well canfyddiad o syrcasau teithiol. Byddai’r aelodau hynny o’r cyhoedd sydd yn gwrthwynebu’r arfer yn gallu mynychu syrcasau teithiol gyda hyder, gan wybod na fyddant yn defnyddio anifeiliaid gwyllt. Gallai cymunedau lleol fwynhau ymweld â syrcasau teithiol heb boeni am faterion fel protestiadau lleol a’r angen posibl am ymyrraeth gan yr heddlu.

# 9. Asesiadau Effaith

***Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?***

9.1 Mae defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn ennyn ymateb cryf. Nid oes unrhyw syrcas sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt yng Nghymru, ond maent yn ymweld, a phob tro y byddant yn gwneud hynny mae galwadau o'r newydd i wahardd yr arfer. Yn ogystal â'r pryderon ynghylch lles yr anifeiliaid, poenir hefyd a yw'n foesegol dderbyniol gwneud i'r anifeiliaid gwyllt deithio, byw mewn llociau dros dro a pherfformio i'n diddanu.

9.2 Wrth i Ddeddf Cymru 2017 ddod i rym, mae pŵer gan Weinidogion Cymru i gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru ar sail foesegol. Mae Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) yn ei gwneud yn drosedd defnyddio anifail gwyllt mewn syrcas deithiol. Bydd anifail gwyllt wedi'i ddefnyddio os bydd yr anifail hwnnw'n perfformio neu'n cael ei arddangos. Ni fydd y defnydd o anifeiliaid wedi eu domestigeiddio mewn syrcasau yn cael ei effeithio.

***Sut mae'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael eu cymhwyso:***

***Hirdymor***

9.3 Mae nifer y syrcasau teithiol sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt a nifer yr anifeiliaid gwyllt yn y syrcasau hynny wedi gostwng yn aruthrol yn y blynyddoedd diwethaf. Yn ôl Animal Defenders International, ym 1997, roedd 124 o anifeiliaid 'egsotig' yn teithio gyda syrcasau'r DU, gan gynnwys rheino, 16 eliffant, 15 llew ac 16 teigr[60] mewn 20 syrcas[61]. Yn ôl Asesiad Effaith Defra yn 2012, roedd 40 o anifeiliaid gwyllt mewn tair syrcas deithiol yn y DU yn y flwyddyn honno.[62]

9.4 Dim ond dwy syrcas sydd bellach yn teithio gydag anifeiliaid gwyllt. Mae'r ddwy â'u pencadlysoedd yn Lloegr ond yn ymweld â Chymru'n rheolaidd; ymwelodd y ddwy syrcas â Chymru yn 2018. Maen nhw wedi eu trwyddedu dan Reoliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Lloegr) 2012.[63] Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i berchenogion syrcasau teithiol yn Lloegr sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt fodloni nifer o amodau sy'n ymwneud â lles anifeiliaid a

---

[60] Animal Defenders International (2006). Animals in Travelling Circuses: The Science on Suffering <http://www.stopcircussuffering.com/wp-content/uploads/2014/08/UK-Science-on-Suffering-low_020311.pdf>
[61] Animal Defenders International (2004). Animal Circuses and the Animal Welfare Bill <http://www.stopcircussuffering.com/wp-content/uploads/2014/08/circusesawblowres.pdf>
[62] Defra, Ending the use of wild animals in travelling circuses, Impact Assessment (2012) http://www.legislation.gov.uk/ukia/2012/41/pdfs/ukia_20120041_en.pdf>
[63] The Welfare of Wild Animals in Travelling Circuses (England) Regulations 2012 <https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2012/9780111527832/contents>

chadw cofnodion. Yn ôl Adolygiad gan Defra o'r Rheoliadau ar ôl eu Gweithredu, bu gan y ddwy syrcas gyfanswm o rhwng 16 a 28 o anifeiliaid gwyllt ar adegau gwahanol ers i'r Rheoliadau ddod i rym yn 2013.[64] Yn eu plith yr oedd sebra, camel, zebu (math o wartheg), carw Llychlyn, racŵn, cadno a macaw, yn ogystal â rhywogaethau wedi eu domestigeiddio.

9.5 Nid yw'r rhan fwyaf o syrcasau teithiol yn defnyddio anifeiliaid gwyllt. Yn ôl Cymdeithas Perchenogion Syrcasau Prydain Fawr, mae mwy na thri deg o syrcasau'n teithio o gwmpas Prydain bob blwyddyn.[65] Mae syrcasau teithiol wedi teithio o amgylch Prydain am dros ddau gan mlynedd a bydd croeso iddynt yng Nghymru o hyd, ar yr amod nad ydynt yn defnyddio anifeiliaid gwyllt.

***Atal***

9.6 Bydd gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn rhoi neges glir bod pobl Cymru'n credu bod adloniant o'r fath yn foesegol annerbyniol. Mae'r ffordd yr ydym yn trin anifeiliaid yn adlewyrchiad pwysig o werthoedd ein cymdeithas. Mae'n fwyfwy anodd cyfiawnhau cadw anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol a disgwyl iddynt berfformio triciau. Ni ddylai anifeiliaid gwyllt gael eu gwrthrycholi na'u hystyried yn nwyddau ar gyfer ein diddanu, ond yn hytrach eu hystyried yn fodau teimladwy gyda'u hanghenion unigryw eu hunain.

9.7 Mae deisebau sy'n galw am waharddiad wedi cael eu hystyried ddwywaith gan Bwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru gydag un yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn.[66] [67]

***Integreiddio***

9.8 Un o'r canlyniadau strategol yng Nghynllun Gweithredu Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru yw *"mae gan anifeiliaid yng Nghymru ansawdd bywyd da"*.[68] Gellid dadlau na all anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol, o ystyried eu hamgylchedd, gael ansawdd bywyd da, neu o leiaf fywyd sy'n cymharu â'r un sy'n cael ei fyw gan aelodau o'u rhywogaethau sy'n byw yn rhydd.

---

[64] Defra, The Welfare of Wild Animals in Travelling Circuses (England) Regulations 2012: Post Implementation Review 2018, Ionawr 2018 <https://www.gov.uk/government/publications/the-welfare-of-wild-animals-in-travelling-circuses-england-regulations-2012-post-implementation-review>
[65] Cymdeithas Perchenogion Syrcasau Prydain Fawr <http://www.circusgb.com/index.html>
[66] NAW, P-04-653 Gwahardd y Defnydd o Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau yng Nghymru <http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=13740&Opt=0>
[67] Cynulliad Cenedlaethol Cymru (7 Mawrth 2018) <http://record.assembly.wales/Plenary/4911?lang=cy-GB>
[68] Llywodraeth Cymru, Cynllun Gweithredu Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-01/fframwaith-iechyd-a-lles-anifeiliaid-cynllun-gweithredu-2017-2018_0.pdf>

9.9 Mae Llywodraeth Cymru yn pryderu am yr effaith y mae gweld anifeiliaid gwyllt yn perfformio mewn syrcasau teithiol, ar gyfer adloniant yn unig, yn ei chael ar agweddau pobl tuag at anifeiliaid. Bydd gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yn cyfrannu at annog agweddau parchus a chyfrifol, yn enwedig agweddau sy'n datblygu ymhlith plant a phobl ifanc, tuag at bob rhywogaeth. Mae hyn yn cyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wneud y gorau o'n cyfraniad at y nodau llesiant, yn enwedig sicrhau Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, Cymru iachach a Chymru gydnerth.

9.10 Bydd gwaharddiad hefyd yn cyfrannu at well canfyddiad o syrcasau teithiol. Byddai'r cyhoedd yn gallu mynychu syrcasau teithiol gyda hyder, gan wybod na fyddant yn defnyddio anifeiliaid gwyllt. Gallai cymunedau lleol fwynhau ymweld â syrcasau teithiol heb boeni am faterion fel protestiadau lleol.

***Cydweithio***

9.11 Mae cryn dipyn o ddiddordeb cyhoeddus, trydydd sector a gwleidyddol mewn gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol. Yn ôl PETA UK, ym mis Gorffennaf 2017, roedd wyth o wledydd yr UE wedi gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau.[69] Daeth gwaharddiadau i rym yng Ngweriniaeth Iwerddon a'r Alban yn 2018, ac mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno deddfwriaeth gyda'r bwriad o wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn Lloegr, pan fydd Rheoliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Lloegr) 2012 yn dod i ben ym mis Ionawr 2020. Mae nifer o wledydd eraill wedi gwahardd defnyddio rhai rhywogaethau ac mae cyfyngiadau lleol a rhanbarthol ar waith mewn sawl gwlad. Yng Nghymru, mae rhai Awdurdodau Lleol yn gwahardd syrcasau sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt rhag perfformio ar dir yr Awdurdod Lleol.

9.12 Bydd y Bil, pe bai'n dod yn gyfraith, yn cael ei orfodi gan Awdurdodau Lleol ac ystyrir yr effaith ar Awdurdodau Lleol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Disgwylir i'r effeithiau fod yn fach iawn, yn enwedig gan fod Llywodraeth y DU yn bwriadu gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn Lloegr ym mis Ionawr 2020. Ni fyddai syrcasau teithiol, yn gyfreithiol, yn gallu defnyddio anifeiliaid gwyllt unrhyw le ym Mhrydain. Rhagwelir na fyddai torri'r gwaharddiad yn digwydd yn aml, ac y byddai'n gymharol hawdd canfod achosion o'r fath.

***Cynnwys***

9.13 Yn 2017, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynllun ar gyfer trwyddedu neu gofrestru Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid, gan gynnwys syrcasau.[70] Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn hefyd

[69] PETA UK <https://www.peta.org.uk/blog/these-17-countries-banned-wild-animal-circuses/>
[70] Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid <https://beta.llyw.cymru/arddangosfeydd-teithiol-o-anifeiliaid>

ynghylch gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau. Roedd mwyafrif llethol y rheini a ymatebodd o blaid gwaharddiad ac addawodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, (bellach Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig) Lesley Griffiths AC, y byddai'n ystyried cyfleoedd i gyflwyno deddfwriaeth i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw'n debyg i'r rheini a gafwyd i ymgynghoriadau ar y pwnc gan Lywodraethau'r DU a'r Alban.[71] [72]

9.14 Cyhoeddwyd ymgynghoriad cyhoeddus wyth wythnos ar y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) drafft ar 1 Hydref 2018. [73] Gofynnwyd i ymatebwyr ystyried 14 cwestiwn yn ymwneud â'r polisi cyffredinol, yr effaith ar blant a phobl ifanc, effeithiau economaidd, darpariaethau'r Bil drafft a'r effaith ar yr iaith Gymraeg. Nid oedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ynghylch a ddylid gwahardd defnyddio pob anifail mewn syrcas, neu a ddylid gwahardd defnyddio anifeiliaid mewn unrhyw fath arall o adloniant. Daeth 6,546 o ymatebion i law mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Derbyniwyd ymatebion gan aelodau'r cyhoedd, sefydliadau trydydd sector, Cymdeithas Milfeddygon Prydain (yn cynnwys Cymdeithas Swolegol Milfeddygol Prydain), y diwydiant syrcas a chyrff gorfodi.

9.15 Derbyniwyd 4,576 dros e-bost, 1,961 ar y ffurflen ymateb ar-lein a naw ymateb trwy'r post. Roedd pedair mil ac un deg naw o'r atebion e-bost yn union yr un peth ac yn ateb y ddau gwestiwn cyntaf yn unig. Fe'u hanfonwyd fel rhan o ymgyrch gan sefydliad Born Free. Dadansoddwyd yr holl ymatebion a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ym mis Ionawr 2019.[74]

9.16 Canfyddiadau allweddol yr ymgynghoriad oedd:

- Roedd naw deg saith y cant o'r ymatebwyr yn cefnogi'n cynnig i gyflwyno deddfwriaeth fyddai'n ei gwneud yn drosedd defnyddio anifail gwyllt mewn syrcas deithiol.
- Roedd naw deg saith y cant o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau plant a phobl ifanc at anifeiliaid.

---

[71] Yr Archifau Cenedlaethol, Defra, Consultation on the use of Wild Animals in Circuses, Mawrth 2010 <http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20101109175937/http://www.defra.gov.uk/corporate/consult/circus-wild-animals/>

[72] Llywodraeth yr Alban, Should the use of wild animals in travelling circuses be banned in Scotland?, Consultation Analysis, Mai 2015 <https://www.gov.scot/Resource/0048/00480385.pdf>

[73] Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru) <https://llyw.cymru/bil-anifeiliaid-gwyllt-mewn-syrcasau-teithio>

[74] Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru), Crynodeb o'r Ymatebion <https://llyw.cymru/bil-anifeiliaid-gwyllt-mewn-syrcasau-teithio>

- Roedd chwe deg y cant o'r ymatebwyr o'r farn y byddai gwaharddiad yn cael effaith ar y diwydiant syrcas; roedd y mwyafrif yn ystyried y byddai hynny'n effaith gadarnhaol.
- Roedd wyth deg wyth y cant o'r ymatebwyr yn cytuno â'r drosedd a gynigir yn y Bil drafft ac roedd naw deg y cant yn cytuno mai gweithredwr y syrcas ddylai fod yn atebol am y drosedd, hyd yn oed os nad y gweithredwr sy'n defnyddio'r anifail gwyllt.
- Roedd naw deg y cant o'r ymatebwyr yn cytuno â'r diffiniad a gynigir o "weithredwr". Roedd wyth deg tri y cant yn cytuno â'r diffiniad o "anifail gwyllt". Ac roedd 91% yn cytuno â'r diffiniad o "syrcas deithiol".
- Roedd pum deg saith o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai fod gan Weinidogion Cymru y pwerau i wneud rheoliadau i bennu'r mathau i anifeiliaid a ystyrir yn rhai gwyllt ac yn rhai nad ydynt yn wyllt. Roedd saith deg wyth y cant yn cytuno dylai fod gan Weinidogion Cymru y pwerau i wneud rheoliadau i bennu'r mathau o weithgarwch, act, adloniant neu debyg sydd i'w hystyried yn syrcas deithiol.
- Roedd saith deg wyth y cant o'r ymatebwyr yn cytuno â'r darpariaethau gorfodi a ddisgrifir yn yr Atodlen.
- Roedd bron yr holl ymatebwyr yn credu na fyddai gwahardd defnyddio anifeiliaid mewn syrcasau teithiol yn cael effaith dda na drwg ar y Gymraeg.
- Roedd ymatebwyr yn poeni beth fyddai'n digwydd i'r anifeiliaid gwyllt sy'n cael eu defnyddio gan syrcasau teithiol ar hyn o bryd pe bai'r gwaharddiad yn dod i rym. Roedd llawer yn credu y dylent gael eu hailgartrefu/ymddeol mewn noddfeydd.

***Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant***

9.17 Mae Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi ei gwblhau. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru fabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) yn ffurfiol yn 2004 ac mae ein gwaith yn seiliedig ar gyflawni amcanion craidd yr UNCRC.[75]

9.18 Roedd naw deg saith y cant o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau plant a phobl ifanc at anifeiliaid. Yn ogystal â'r ymgynghoriad cyhoeddus, cynhaliodd Plant yng Nghymru, y corff ymbarél cenedlaethol ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru, arolwg atodol ar ei wefan. Mae'r mwyafrif llethol o'r bobl a gwblhaodd yr arolwg yn credu y bydd gwahardd syrcasau rhag defnyddio anifeiliaid

---

[75] Llywodraeth Cymru, Plant a phobl ifanc <https://llyw.cymru/plant-theuluoedd?_ga=2.113323143.1067107442.1557992484-881363834.1547048528>

gwyllt yn cael effaith dda ar agweddau pobl ifanc tuag at anifeiliaid.

***Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb***

9.19 Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau. Byddai disgwyl i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol gael yr un effaith ar yr holl bobl yr effeithir arnynt. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd unrhyw effaith ar y gymuned ehangach yn gadarnhaol, ac ni fydd yr effaith honno'n benodol i unrhyw un nodwedd warchodedig neu grŵp gwarchodedig, ond i gymdeithas ehangach.

***Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg***

9.20 Mae Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg wedi'i gwblhau. Yn ôl yr ymgynghoriad cyhoeddus rydym wedi'i gynnal, ni chaiff gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru fawr o effaith, da neu ddrwg, ar y Gymraeg.

***Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder***

9.21 Mae'r effeithiau ar y System Gyfiawnder wedi eu hystyried. Bydd Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) yn creu trosedd newydd. Bydd person sy'n weithredwr syrcas yn cyflawni trosedd os yw'n defnyddio, neu'n achosi neu'n caniatáu i berson arall ddefnyddio anifail gwyllt mewn syrcas deithiol. Mae person sy'n euog o drosedd o'r fath yn agored, ar euogfarn ddiannod, i ddirwy ddiderfyn. Mae effeithiau disgwyliedig ar y system cyfiawnder troseddol wedi cael eu hystyried gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn rhagweld na fyddai fawr ddim neu ddim effaith ar y system gyfiawnder.

***Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth***

9.22 Mae Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth wedi ei gwblhau. Mae rhai o'r rhywogaethau sy'n cael eu cadw gan syrcasau teithiol yn cael eu dosbarthu gan Restr Goch o Rywogaethau Dan Fygythiad yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) fel rhai sy'n agored i niwed, dan fygythiad neu mewn perygl.[76]. Mae'n debygol fod yr holl anifeiliaid gwyllt a gedwir gan syrcasau teithiol yn y Deyrnas Unedig wedi eu geni mewn caethiwed. Ni fydd gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru'n debygol o gael effaith uniongyrchol ar y fasnach yn yr anifeiliaid hyn nac ar barhad yr anifeiliaid hyn yn eu cynefin naturiol.

9.23 Mae Llywodraeth Cymru yn pryderu am yr effaith y mae gweld anifeiliaid gwyllt yn perfformio mewn syrcasau teithio, ar gyfer adloniant yn unig, yn gael ar agweddau pobl tuag at anifeiliaid. Trwy wahardd defnyddio anifeiliaid mewn syrcasau, mae Llywodraeth Cymru'n

[76] The International Union for Conservation of Nature's Red List of Threatened Species <https://www.iucnredlist.org/>

gobeithio cyfrannu at annog agweddau parchus a chyfrifol at bob rhywogaeth, yn enwedig ymhlith plant a phobl ifanc. Gallai hynny yn ei dro arwain at ddealltwriaeth well o bwysigrwydd bioamrywiaeth.

***Asesiad o'r Gystadleuaeth***

9.24 Mae Asesiad o'r Gystadleuaeth wedi ei gynnal i asesu effaith bosibl gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol ar gystadleuaeth yng Nghymru. Ni ddisgwylir i'r polisi hwn gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth o fewn y diwydiant syrcasau teithiol. Nid yw'r polisi yn gwahaniaethu rhwng syrcasau teithiol, gan gymhwyso'n gyfartal i bawb. Mae canlyniadau prawf hidlo (sy'n cynnwys naw cwestiwn cadarnhaol/negyddol) sy'n ategu'r casgliad hwn isod, gyda thystiolaeth i gefnogi'r atebion yn dilyn.

Tabl 9.24: Prawf hidlo ar gyfer gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol ar gystadleuaeth yng Nghymru.

| Prawf hidlo cystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb cadarnhaol neu negyddol** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad? | Oes |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 20% o gyfran y farchnad? | Oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd o leiaf 50% o gyfran y farchnad? | Oes |
| **C4**: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio llawer mwy ar rai cwmnïau nag eraill? | Na fyddai |
| **C5**: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint cwmnïau? | Nac ydy |
| **C6**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C7**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C8**: A yw'r sector yn cael ei nodweddu gan newid technolegol cyflym? | Nac ydy |
| **C9**: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai |

9.25 Byddai gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn cynyddu nifer y syrcasau teithiol nad ydynt yn defnyddio anifeiliaid gwyllt. Er y dylai hyn gynyddu cystadleuaeth rhwng syrcasau teithiol, gall y realiti fod yn wahanol. Mae syrcasau teithiol yn tueddu i weithredu fel monopolïau gan mai dim ond un sydd ar gael fel arfer i ddefnyddwyr mewn unrhyw ardal benodol ar unrhyw un adeg. Yn ôl eu hamserlenni teithio, mae'r ddwy syrcas deithiol sy'n ymweld â Chymru i ryw raddau yn deyrngar i'r un lleoliadau, naill ai'n flynyddol (Circus Mondao) neu bob dwy flynedd (Syrcas Peter Jolly), er bod rhywfaint o amrywiaeth o flwyddyn i flwyddyn. Er fel petaent yn osgoi ymweld â'r un ardaloedd, nid yw mynychu un syrcas deithiol yn atal y cyhoedd rhag mynychu eraill. Mae pob syrcas yn wahanol a bydd gan bob un eu pwyntiau gwerthu unigryw eu hunain.

9.26 Yn dilyn cyfnod o drawsnewid, dylai'r ddwy syrcas y mae'r gwaharddiad yn effeithio arnynt allu teithio'n llwyddiannus yng Nghymru heb eu hanifeiliaid gwyllt. Mae'r nifer fach o anifeiliaid gwyllt sy'n cael eu cadw gan syrcasau teithiol, a'r ffaith bod y ffigur yn gostwng, yn awgrymu nad yw eu presenoldeb yn ffactor pwysig wrth benderfynu ar boblogrwydd syrcasau teithiol.

9.27 Bydd costau cadw at y gwaharddiad yn effeithio ar y ddwy syrcas deithiol sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt ar hyn o bryd, ond nid y rhai nad ydynt, neu unrhyw newydd-ddyfodiaid. Efallai y bydd cynnydd mewn costau i syrcasau sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt, yn y tymor byr o leiaf, ond bydd maint yr effaith yn dibynnu ar nifer o ffactorau a gall fod arbedion costau (gweler paragraffau 8.8 i 8.21).

9.28 Bydd y cymhellion i gydymffurfio â'r gwaharddiad yn gorbwyso'r cymhellion i beidio â chydymffurfio. Byddai trosedd yn cael ei chyflawni gan y person sy'n weithredwr y syrcas deithiol os ydynt yn defnyddio, neu'n achosi neu'n caniatáu i berson arall ddefnyddio anifail gwyllt yn y syrcas deithiol. Mae person sy'n euog o drosedd o'r fath yn agored, ar euogfarn ddiannod, i ddirwy.

9.29 Mae'n amlwg o'u hymatebion i'r ymgynghoriad bod y rhai sy'n ymwneud â'r diwydiant yn pryderu am yr effaith a gaiff gwaharddiad. Byddai'n newid un elfen o ffordd o fyw sydd wedi bodoli ers dros 200 mlynedd a bydd yn ddiamheuol yn dylanwadu ar nodweddion rhai syrcasau teithiol. Fodd bynnag, mae modd cyfiawnhau hyn er mwyn cyflawni'r amcan polisi, a chafwyd cefnogaeth aruthrol i waharddiad gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Byddai defnyddwyr yn gallu mynychu syrcasau teithiol gyda hyder, gan wybod na fyddant yn defnyddio anifeiliaid gwyllt.

### *Casgliad*

### *Sut mae pobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi bod yn gysylltiedig â'i ddatblygu?*

9.30 Cyhoeddwyd ymgynghoriad cyhoeddus wyth wythnos ar y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) drafft ar 1 Hydref 2018. Gofynnwyd i ymatebwyr ystyried 14 cwestiwn yn ymwneud â'r polisi cyffredinol, yr effaith ar blant a phobl ifanc, effeithiau economaidd, darpariaethau'r Bil drafft a'r effaith ar yr iaith Gymraeg. Nid oedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ynghylch a ddylid gwahardd defnyddio pob anifail mewn syrcas, neu a ddylid gwahardd defnyddio anifeiliaid mewn unrhyw fath arall o adloniant. Daeth 6,546 o ymatebion i law mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Derbyniwyd ymatebion gan aelodau'r cyhoedd, sefydliadau trydydd sector, Cymdeithas Milfeddygon Prydain (yn cynnwys Cymdeithas Swolegol Milfeddygol Prydain), y diwydiant syrcas a chyrff gorfodi.

9.31 Dadansoddwyd yr holl sylwadau ar yr ymgynghoriad, a'r ymatebion iddo, a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ym mis Ionawr 2019.

### *Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, cadarnhaol a negyddol?*

9.32 Mae Llywodraeth Cymru yn pryderu am effaith gweld anifeiliaid gwyllt yn perfformio mewn syrcasau teithio, ar gyfer adloniant yn unig, ar agweddau pobl tuag at anifeiliaid. Bydd gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn cyfrannu at annog agweddau parchus a chyfrifol, yn enwedig agweddau sy'n datblygu ymhlith plant a phobl ifanc, tuag at bob rhywogaeth. Mae hon yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru ac mae'n nodwedd allweddol o Gynllun Gweithredu Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru.

9.33 Mae'n fwyfwy anodd cyfiawnhau cadw anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol a disgwyl iddynt berfformio triciau. Mae'n amlwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad bod pobl yn cytuno na ddylai anifeiliaid gwyllt gael eu gwrthrycholi na'u hystyried yn nwyddau ar gyfer ein diddanu, ond yn hytrach eu hystyried yn fodau teimladwy gyda'u hanghenion unigryw eu hunain.

9.34 Yn sgil gweithredu Deddf Cymru 2017, mae'r pŵer gan Weinidogion Cymru i gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i wahardd y defnydd o anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol ar sail foesegol. Cyflwynwyd gwaharddiadau yng Ngweriniaeth Iwerddon a'r Alban yn 2018, ac mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno deddfwriaeth gyda'r bwriad o wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn Lloegr pan ddaw Rheoliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Lloegr) 2012 i ben ym mis Ionawr 2020. Pe na bai gwaharddiad cyfatebol yng Nghymru, Cymru fyddai'r unig wlad ym Mhrydain fyddai'n dal i ganiatáu defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol.

9.35 Byddai disgwyl i effaith uniongyrchol gwaharddiad ddisgyn ar y ddwy syrcas deithiol yn Lloegr sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt ar hyn o bryd. Efallai y byddant yn profi gostyngiad mewn refeniw yn y tymor byr, ond bydd graddau'r effaith arnynt yn dibynnu ar nifer o ffactorau a ystyrir yn fanylach yn yr AERh.

9.36 Bydd gwahardd anifeiliaid gwyllt yn gwella canfyddiad y cyhoedd o syrcasau teithiol. Byddai'r cyhoedd yn gallu mynychu syrcasau teithiol gyda hyder, gan wybod na fyddant yn defnyddio anifeiliaid gwyllt. Gallai cymunedau lleol fwynhau ymweld â syrcasau teithiol heb boeni am faterion fel protestiadau lleol a'r angen posibl am ymyrraeth gan yr heddlu.

***Yn wyneb yr effeithiau a nodwyd, sut fydd y cynnig:***

- ***yn gwneud y cyfraniad mwyaf at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,***
- ***yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?***

9.37 Mae gwahardd anifeiliaid gwyllt o syrcasau teithiol yn cyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wneud y gorau o'n cyfraniad at y nodau llesiant, yn enwedig sicrhau Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, Cymru iachach a Chymru gydnerth.

9.38 Mae Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) yn ei gwneud yn drosedd defnyddio anifail gwyllt mewn syrcas deithiol. Mae'r Bil yn diffinio 'anifail gwyllt' yn anifail o fath nad yw'n cael ei gadw fel anifail wedi ei ddomestigeiddio yn Ynysoedd Prydain. Ni fydd y Bil yn effeithio ar ddefnyddio anifeiliaid mewn syrcasau ac ni fydd yn rhwystro pobl rhag defnyddio anifeiliaid gwyllt fel adloniant mewn sefyllfaoedd eraill. Mae syrcasau teithiol wedi teithio o gwmpas y Deyrnas Unedig am ragor na dau gan mlynedd a bydd dal croeso iddynt yng Nghymru cyn belled nad ydynt yn defnyddio anifeiliaid gwyllt. Yn dilyn cyfnod o drawsnewid, dylai'r ddwy syrcas y mae'r gwaharddiad yn effeithio arnynt allu teithio'n llwyddiannus heb eu hanifeiliaid gwyllt. Mae'r nifer fach o anifeiliaid gwyllt sy'n cael eu cadw gan syrcasau teithiol, a'r ffaith bod y nifer yn gostwng, yn awgrymu nad yw eu presenoldeb yn ffactor pwysig wrth benderfynu ar boblogrwydd syrcasau teithiol.

9.39 Mae mwyafrif llethol ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) yn cefnogi cyflwyno deddfwriaeth fyddai'n ei gwneud yn drosedd i ddefnyddio anifail gwyllt mewn syrcas deithiol. Bydd gwaharddiad yn rhoi neges glir bod pobl Cymru'n credu bod yr arfer yn un o'r oes o'r blaen ac yn foesegol annerbyniol.

## 10. Adolygiad ôl-weithredu

10.1 Yr amcan polisi yw cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru, ar sail foesegol. Disgwylir i syrcasau teithiol gydymffurfio â gwaharddiad, yn enwedig gan fod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau (Rhan 2) gyda'r bwriad o wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn Lloegr o 20 Ionawr 2020.

10.2 Os caiff ei gymeradwyo, bydd y ddeddfwriaeth yn destun adolygiad dim hwyrach na phum mlynedd ar ôl iddi ddod i rym. Ni chaiff ei heffaith ei hystyried ar ei phen ei hun, ond yng nghyd-destun gwaharddiad yn Lloegr a chyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid yng Nghymru. Gwneir cais am adborth gan awdurdodau gorfodi a rhanddeiliaid eraill.

# Atodiad 1

## Nodiadau Esboniadol

# Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)

---

## NODIADAU ESBONIADOL

**CYFLWYNIAD**

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 8 Gorffennaf 2019. Fe'u lluniwyd gan Adran Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil ond nid ydynt yn rhan ohono.

**SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU**

**Adran 1 – Trosedd i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol**

2. Mae adran 1 yn ei gwneud yn drosedd i weithredwr syrcas deithiol ddefnyddio anifail gwyllt mewn syrcas deithiol, neu beri neu ganiatáu i berson arall wneud hynny. Mae'r drosedd yn drosedd ddiannod ac felly gellir ei rhoi ar brawf yn Llys yr Ynadon. Os ceir gweithredwr yn euog o drosedd, caiff y Llys osod dirwy ddiderfyn.

3. Mae anifail gwyllt yn cael ei "ddefnyddio" os yw'r anifail yn perfformio neu'n cael ei arddangos.

4. Mae anifail gwyllt yn "perfformio" os yw, er enghraifft, yn gwneud triciau neu symudiadau ar gyfer cynulleidfa.

5. Mae anifail gwyllt yn cael ei "arddangos" os yw'n cael ei ddangos i'r cyhoedd, hyd yn oed os yw'n cael ei ddangos y tu allan i brif arena'r syrcas. Er enghraifft, byddai gosod yr anifail gwyllt yn fwriadol fel y gall y cyhoedd ei weld mewn caeau cyfagos i'r syrcas yn cyfrif fel "arddangos" yr anifail, ac felly hefyd ddangos yr anifail nesaf at boster syrcas neu mewn unrhyw ffordd arall y bwriedir iddi hyrwyddo'r syrcas deithiol. Ni fydd gweithredwyr syrcasau teithiol yn cyflawni trosedd, fodd bynnag, os bydd rhywun yn anfwriadol yn gweld anifail gwyllt sydd mewn lloc yn yr awyr agored, ar yr amod nad yw'r anifail gwyllt wedi ei roi yno'n fwriadol i gael ei weld neu i hyrwyddo'r syrcas deithiol.

6. Bydd trosedd wedi ei chyflawni pa un a oes angen talu i weld y perfformiad neu'r arddangosfa ai peidio.

7. Nid oes rhaid i anifail gwyllt fod wedi ei gludo gyda'r syrcas deithiol na bod yn eiddo i'r syrcas deithiol er mwyn i drosedd fod wedi ei chyflawni.

8. Caiff syrcasau teithiol, fodd bynnag, barhau i gadw (ond nid i ddefnyddio) anifeiliaid gwyllt. Gweler adran 8 o'r Nodiadau Esboniadol hyn i weld newidiadau i Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 a Deddf Trwyddedu Sŵau 1981 ynghylch trwyddedau y gall fod eu hangen ar syrcasau i gadw anifeiliaid gwyllt.

9. Nid yw'r Bil yn effeithio ar ddefnyddio anifeiliaid wedi eu domestigeiddio mewn syrcasau teithiol, nac ychwaith yn atal anifeiliaid gwyllt rhag cael eu defnyddio ar gyfer adloniant mewn lleoliadau eraill.

**Adran 2 – Ystyr "gweithredwr"**

10. Gweithredwr syrcas deithiol yn unig sy'n gallu cyflawni'r drosedd yn adran 1. Y gweithredwr yw perchennog y syrcas deithiol neu berson arall nad yw'n berchennog ar y syrcas deithiol ond sy'n bennaf gyfrifol am weithrediad y syrcas neu, os nad yw'r naill na'r llall yn bresennol yn y Deyrnas Unedig, y person yn y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am weithrediad y syrcas deithiol. Gweler hefyd adran 6 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch unigolion a all fod yn atebol pan fo'r drosedd wedi ei chyflawni gan gwmni etc.

**Adran 3 – Ystyr "anifail gwyllt"**

11. Mae "anifail gwyllt" yn anifail o fath nad yw wedi ei ddomestigeiddio yn gyffredin yn yr Ynysoedd Prydeinig. Byddai anifeiliaid yr ystyrir eu bod wedi eu domestigeiddio yn gyffredin yn y wlad y maent yn tarddu ohoni ond nad ydynt o fath sydd wedi ei ddomestigeiddio yn gyffredin yn yr Ynysoedd Prydeinig yn "anifeiliaid gwyllt" o dan y Bil.

12. Mae'n bosibl efallai y bydd ansicrwydd neu wahaniaeth barn ynghylch a yw math o anifail i'w ystyried yn wyllt ai peidio. Mae Adran 3(2) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu mathau o anifeiliaid sydd i'w hystyried yn wyllt, neu nad ydynt i'w hystyried yn wyllt, at ddibenion y Bil. Nid yw'r pŵer hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru restru pob anifail gwyllt mewn deddfwriaeth.

13. Mae i "anifail" yr ystyr a roddir i "animal" yn Neddf Lles Anifeiliaid 2006, ac i anifeiliaid asgwrn cefn yn unig y mae'n gymwys. Mae adran 1(3) o Ddeddf 2006 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru estyn Deddf 2006 i gynnwys anifeiliaid di-asgwrn-cefn os ydynt yn fodlon ar sail tystiolaeth wyddonol fod y rhain hefyd yn gallu teimlo poen neu ddioddefaint.

**Adran 4 – Ystyr "syrcas deithiol"**

14. Ystyr "syrcas deithiol" yw syrcas sy'n teithio o un man i fan arall at ddiben darparu adloniant. Mae'r diffiniad yn cydnabod bod syrcas yn "syrcas deithiol" er bod cyfnodau pan nad yw'n teithio (e.e. wrth gymryd seibiant o'r teithio neu yn ystod y tymor pan fo ar gau).

15. Nid yw "syrcas deithiol", fodd bynnag, yn cynnwys syrcas sydd fel arfer yn sefydlog ac sy'n teithio er mwyn adleoli i leoliad sefydlog arall.

16. Mae'n bosibl efallai y bydd ansicrwydd neu wahaniaeth barn ynghylch a yw math o ymgymeriad, perfformiad neu adloniant yn syrcas deithiol ai peidio. Mae Adran 4(3) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu math o ymgymeriad, perfformiad, adloniant neu rywbeth tebyg sydd i'w ystyried yn syrcas deithiol, ac nad yw i'w ystyried yn syrcas deithiol, at ddibenion y Bil. Nid yw'r pŵer hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru restru, mewn deddfwriaeth, bob math o ymgymeriad, perfformiad neu adloniant sydd i'w ystyried yn syrcas deithiol.

**Adran 5 – Pwerau gorfodi**

17. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r Atodlen, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch pwerau gorfodi (gweler isod).

**Adran 6 – Troseddau gan gyrff corfforedig etc.**

18. Mae hyn yn gymwys i'r brif drosedd yn adran 1. Mae'n gwneud darpariaeth i bersonau penodol sy'n gysylltiedig â gwahanol fathau o sefydliadau gael eu hystyried yn atebol o ran cyfraith trosedd am gyflawni'r drosedd yn ogystal â'r sefydliad sydd wedi cyflawni'r drosedd.

19. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, y gallai cyfarwyddwr cwmni fod yn atebol o ran cyfraith trosedd am drosedd a gyflawnwyd gan y cwmni.

**Adran 7 – Achosion: Troseddau a gyflawnir gan bartneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig**

20. Mae'r adran hon yn nodi sut y mae dwyn achos yn erbyn partneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig pan honnir ei bod wedi cyflawni trosedd o dan adran 1.

**Adran 8 – Diwygiadau sy'n ymwneud â thrwyddedu syrcasau**

21. Er bod y Bil hwn yn gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol, caiff syrcasau barhau i gadw anifeiliaid gwyllt. Er mwyn cadw anifeiliaid gwyllt, mae'r diwygiadau a wneir gan yr adran hon yn golygu efallai y bydd angen i'r syrcasau fod â thrwydded sw neu drwydded anifeiliaid gwyllt peryglus.

22. O dan Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 ("Deddf 1976"), mae angen trwydded i gadw "anifail gwyllt peryglus" (fel y diffinnir "dangerous wild animal" yn adran 7 o'r Ddeddf honno), yn ddarostyngedig i rai esemptiadau (fel y nodir yn adran 5 o'r Ddeddf honno). Mae Deddf Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau 2019 yn diwygio adran 5 o Ddeddf 1976 fel nad yw syrcasau yn Lloegr ac yn yr Alban wedi eu hesemptio mwyach rhag y gofyniad hwn. Mae Adran 8(1) yn diwygio adran 5 o Ddeddf 1976 ymhellach fel nad yw syrcasau yng Nghymru ychwaith wedi eu hesemptio mwyach rhag y gofyniad hwn. Mae hyn yn golygu y bydd angen trwydded o dan Ddeddf 1976 ar unrhyw syrcas yng Nghymru (boed yn deithiol neu'n sefydlog) sy'n cadw anifail gwyllt peryglus, oni bai bod y syrcas yn dod o dan ddarpariaethau Deddf Trwyddedu Sŵau 1981 (gweler Adran 8(2)).

23. O dan Ddeddf Trwyddedu Sŵau 1981 ("Deddf 1981"), mae angen trwydded i weithredu "sw". Mae Adran 8(2) yn diwygio adran 1(2) o Ddeddf 1981 fel bod syrcasau yng Nghymru yn dod o fewn y diffiniad o "sw". Mae hyn yn golygu y gallai fod angen i syrcas yng Nghymru gael trwydded sw os yw'n bodloni gofynion Deddf 1981. Os nad yw syrcas yn dod o fewn y diffiniad o "sw", gall Deddf 1976 fod yn gymwys ac felly efallai y bydd angen trwydded anifeiliaid gwyllt peryglus ar y syrcas (gweler Adran 8(1)).

**Adran 9 – Pŵer yr Uchel Lys i ddatgan bod gweithred neu anweithred y Goron yn anghyfreithlon**

24. Mae'r Bil yn rhwymo'r Goron. Mae'r Bil yn gymwys i bersonau sy'n gwasanaethu'r Goron fel y mae'n gymwys i bersonau eraill, ond nid yw'n gwneud y Goron ei hun yn atebol o ran cyfraith trosedd. Mae adran 9, fodd bynnag, yn darparu y caiff yr Uchel Lys ddatgan bod gweithred neu anweithred y Goron yn anghyfreithlon. Gweler yn gyffredinol adran 26 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ynghylch sut y mae Deddfau'r Cynulliad yn gymwys i'r Goron.

**Adran 10 – Tir y Goron: pwerau mynediad**

25. Gyda chydsyniad "awdurdod priodol" yn unig y caniateir arfer pŵer mynediad mewn perthynas â thir y Goron. Diffinnir "tir y Goron" yn Adran 10(1)(a). Mae pwy sy'n cyfrif fel yr "awdurdod priodol", a chan bwy y mae angen cael caniatâd, yn dibynnu ar berchnogaeth neu reolaeth tir y Goron, ac fe'i nodir yn Adran 10(2)(b). Pan fo unrhyw ansicrwydd ynghylch pa awdurdod ddylai fod yn rhoi cydsyniad, y Trysorlys sy'n penderfynu.

**Adran 11 – Rheoliadau**

26. Mae'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i'w harfer drwy offeryn statudol ac ni chaniateir gwneud yr offeryn statudol oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo (h.y. y weithdrefn gadarnhaol).

**Adran 12 – Dod i rym**

27. Daw'r Ddeddf i rym ar 1 Rhagfyr 2020.

**Adran 13 – Enw byr**

28. Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020.

**Yr Atodlen – Pwerau Gorfodi**

29. Mae'r Atodlen yn rhoi pwerau i arolygwyr i orfodi'r drosedd yn adran 1. Mae'r Atodlen yn nodi rhychwant y pwerau hynny ac yn creu troseddau pan fo unrhyw berson yn rhwystro'r pwerau hynny rhag cael eu harfer.

30. Mae paragraff 1 yn darparu diffiniadau o "arolygydd", "pŵer mynediad" a "mangreoedd". Ystyr arolygydd yw person a benodir yn arolygydd at ddibenion y Bil gan gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru, neu gan Weinidogion Cymru. Mae "mangreoedd" yn cynnwys tir ac unrhyw fan, gan gynnwys cerbyd, pabell neu strwythur symudol (ac felly mae'n

cynnwys, er enghraifft, garafanau a chartrefi symudol a gysylltir yn gyffredin â syrcasau teithiol).

31. Mae paragraff 2 yn rhoi pŵer i arolygwyr i fynd i fangreoedd nad ydynt yn cael eu defnyddio yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel anheddau ac yn nodi'r amgylchiadau pan fo'r pŵer yn arferadwy.

32. Mae paragraff 3 yn rhoi pŵer i arolygwyr i fynd i anheddau o dan rai amgylchiadau penodol. Rhaid i'r arolygydd gael gwarant gan Ynad cyn arfer y pŵer hwn. Mae'r paragraff hwn yn nodi'r materion y mae rhaid eu bodloni cyn i warant gael ei rhoi. Mae paragraff 4 yn darparu bod gwarant o'r fath yn awdurdodi mynd i'r fangre ar un achlysur yn unig a bod rhaid ei defnyddio o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y dyddiad y'i rhoddwyd.

33. Mae paragraff 5 yn ei gwneud yn ofynnol i arolygydd, os gofynnir iddo gan berson yn y fangre, ddangos tystiolaeth o'i fanylion adnabod cyn arfer pŵer mynediad a datgan pam y mae'r pŵer yn cael ei arfer. Os bydd arolygydd yn mynd i annedd o dan warant, rhaid iddo, os gofynnir iddo wneud hynny, ddangos copi o'r warant i unrhyw berson yn y fangre, a rhoi copi i'r meddiannydd neu i berson yr ymddengys i'r arolygydd ei fod yn gyfrifol am y fangre. Os nad yw'r naill na'r llall yn bresennol, rhaid i'r arolygydd adael copi o'r warant mewn man amlwg. Rhaid i'r arolygydd adael y fangre wedi ei diogelu yr un mor effeithiol rhag mynediad anawdurdodedig ag yr oedd pan gyrhaeddodd.

34. Mae paragraff 6 yn ei gwneud yn ofynnol i arolygydd arfer pŵer mynediad ar adeg resymol oni bai bod yr arolygydd yn credu y byddai aros am yr adeg resymol honno yn llesteirio diben mynd i'r fangre honno a'i harolygu.

35. Mae paragraff 7 yn caniatáu i arolygydd ddefnyddio grym rhesymol pan fo hynny'n angenrheidiol i arfer pŵer mynediad.

36. Mae paragraff 8 yn caniatáu i arolygydd fynd â phersonau eraill gydag ef i'r fangre ac unrhyw beth sy'n angenrheidiol (gan gynnwys cyfarpar a deunyddiau) i gynorthwyo â'u dyletswyddau. Gallai'r cynorthwywyr gynnwys arbenigwyr, er enghraifft arbenigwr sŵolegol i helpu i adnabod anifeiliaid, neu gwnstabl heddlu.

37. Mae paragraff 9 yn nodi'r pwerau arolygu, chwilio ac ymafael sydd ar gael i arolygydd wrth arfer pŵer mynediad. Ni chaiff arolygydd ymafael mewn anifail gwyllt, ond caiff, er enghraifft, ei archwilio neu gymryd samplau. Mae paragraff 9(d) yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson yn y fangre gynorthwyo'r arolygydd. Gallai arolygydd, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i berson roi mynediad i'r arolygydd i loc anifeiliaid, helpu'r arolygydd i gydio mewn anifail (er mwyn gallu cymryd samplau) neu symud cerbyd.

38. Mae paragraff 10 yn darparu y caiff unrhyw berson yr eir ag ef i'r fangre gan yr arolygydd arfer pwerau'r arolygydd o dan baragraff 9, ar yr amod ei fod o dan oruchwyliaeth yr arolygydd. Er enghraifft, gallai milfeddyg sy'n mynd

gydag arolygydd, o dan oruchwyliaeth, gymryd samplau o anifail at ddibenion adnabod.

39. Mae paragraff 11 yn gwneud darpariaeth ychwanegol ynghylch pŵer ymafael. Caniateir cadw unrhyw eitem yr ymafaelir ynddi o dan baragraff 9(k) am gyhyd ag y bo angen. Mae paragraff 11(2) yn ei gwneud yn ofynnol i arolygydd neu gynorthwyydd yr arolygydd gadw cofnod o'r eitem yr ymafaelir ynddi, ac os gofynnir iddo wneud hynny, ddarparu cofnod o'r eitem yr ymafaelwyd ynddi i'r person a oedd yn meddiannu'r fangre ar yr adeg yr ymafaelwyd yn yr eitem, neu'r person a oedd â'r eitem yn ei feddiant neu o dan ei reolaeth yn union cyn yr ymafaelwyd ynddi. Nid yw paragraff 11(3) yn caniatáu ymafael mewn eitemau a allai fod yn ddarostyngedig i fraint broffesiynol gyfreithiol, er enghraifft, dogfennau sy'n cynnwys cyngor gan weithwyr proffesiynol cyfreithiol.

40. Mae person yn cyflawni trosedd os yw'n methu â chydymffurfio â chais am gymorth a wnaed yn rhesymol gan arolygydd neu os yw'n fwriadol yn rhwystro arolygydd wrth iddo arfer ei ddyletswyddau (paragraff 12). Gellir rhoi trosedd o dan y paragraff hwn ar brawf yn Llys yr Ynadon a chaiff y Llys osod dirwy ddiderfyn os ceir person yn euog.

41. Mae paragraff 13 yn diogelu arolygwyr ac unrhyw berson y mae arolygydd yn mynd ag ef i fangre rhag bod yn atebol mewn unrhyw achos sifil neu droseddol am unrhyw beth a wneir neu am unrhyw beth na wneir o ganlyniad i gyflawni eu dyletswyddau. Nid yw'r esemptiad hwn rhag atebolrwydd yn gymwys pan fo arolygydd neu'r person sydd o dan oruchwyliaeth yr arolygydd yn ymddwyn mewn modd nad yw'n ddidwyll neu os nad oedd seiliau rhesymol dros weithredu yn y fath fodd.

## COFNOD Y TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

42. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Bil drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Bil hwn ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar: http://www.assembly.wales/cy/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-progress-bills/Pages/bus-legislation-progress-bills.aspx

| **Cyfnod** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Cyflwynwyd | 8 Gorffennaf 2019 |
| Cyfnod 1 – Dadl | |
| Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu – ystyried y gwelliannau | |
| Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn – ystyried y gwelliannau | |
| Cyfnod 4 Cymeradwywyd gan y Cynulliad | |
| Y Cydsyniad Brenhinol | |

# Atodiad 2

# Mynegai anghenion Rheolau Sefydlog

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| 26.6(i) | Datganiad y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad | Datganiad yr aelod | Tudalen 1 |
| 26.6(ii) | Nodi amcanion polisi y Bil | Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael | Tud. 5-16<br>Para. 3.1-3.51 |
| 26.6(iii) | Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tud. 27-30<br>Para. 7.1-7.17 |
| 26.6(iv) | Nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol:<br>(a) amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu;<br>(b) manylion y Bil, a<br>(c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau) | Pennod 4 – Ymgynghori | Tud. 17-18<br>Para. 4.1-4.14 |
| 26.6(v) | Nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio | Pennod 4 – Ymgynghori | Tud. 17-18<br>Para. 4.1-4.14 |
| 26.6(vi) | Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau | Nid yw gofyniad Rheol Sefydlog 26.6(vi) yn | Amherthnasol |

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| | dros y penderfyniad hwnnw | berthnasol i'r Bil hwn gan i ymgynghoriad ar y Bil drafft gael ei gynnal | |
| 26.6(vii) | Crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil | Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol | Atodiad 1 |
| 26.6(viii) | Nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:<br><br>(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt<br><br>(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt<br><br>(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil<br><br>(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac<br><br>(e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio; | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tud. 24-25 |
| 26.6(ix) | Nodi unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tud. 25-26<br>Tud. 43-44<br>(Para. 8.45-8.52) |
| 26.6(x) | Os yw'r Bil yn cynnwys | Pennod 5 – | Tudalen 23 |

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| | unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath:<br><br>(a) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer;<br><br>(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac<br><br>(c) y weithdrefn Cynulliad (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall); | Pŵer i lunio is-ddeddfwriaeth | (Tabl 5.1) |
| 26.6(xi) | Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio | Nid yw gofyniad Rheol Sefydlog 26.6(xi) yn berthnasol i'r Bil hwn | Amherthnasol |
| 26.6(xii) | Nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalen 25<br>Tudalen 41 (Para. 8.40 – 8.41)<br>Tudalen 50 (Para 9.21) |
| 26.6B | Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth | Nid yw'r gofyniad yn Rheol | Amherthnasol |

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| | sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol. | Sefydlog 26.6B ar gyfer Tabl Tarddiadau yn berthnasol i'r Bil hwn gan fod y Bil yn ddarn o ddeddfwriaeth annibynnol ac nid yw'n deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi. | |
| 26.6C | Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy'n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi'n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil. | Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6C ar gyfer Atodlen o Welliannau yn gymwys i'r Bil hwn gan nad yw'r Bil yn bwriadu diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol. | Atodiad 3 |

# Atodiad 3

# Atodlen o Welliannau

Deddf Anifeiliaid Peryglus 1976

GWELLIANNAU I'W GWNEUD I
FIL ANIFEILIAID GWYLLT A SYRCASAU (CYMRU)

Mae Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) wedi'i ddrafftio i ddiwygio adran 5(2) Deddf Anifeiliaid Peryglus 1976 fel y caiff ei ddiwygio os, fel a ragwelir, na chaiff geiriad drafft Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau (rhif 2) ei newid wrth iddo fynd trwy'r Senedd. Cyflwynwyd y Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau (rhif 2) ger bron y Senedd ar 30 Ebrill 2019.[77] Os gwnaiff lwyddo i gael y Cydsyniad Brenhinol, ei ddyddiad dod i rym fydd 20 Ionawr 2020. Adeg ei gyflwyno ar 8 Gorffennaf 2019, dyddiad dod i rym Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) oedd 1 Rhagfyr 2020. Mae Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau (rhif 2) yn diwygio Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 i ddileu'r esemptiad yn adran 5(2) ar gyfer Lloegr a'r Alban ond nid ar gyfer Cymru. Mae hynny'n golygu, os tybir y caiff Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau (rhif 2) ei basio gan y Senedd er mwyn ei droi'n Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau 2019, bydd yr esemptiad yn adran 5(2) Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 yn gymwys i Gymru'n unig. Mae Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) yn dileu'r esemptiad yn llwyr fel na fydd yn gymwys i Gymru hefyd, h.y. ni fydd esemptiad awtomatig i syrcasau rhag gofynion trwyddedu Deddf 1976.

Fodd bynnag, bwriedir i'r ddogfen hon ddangos sut olwg y bydd ar ddarpariaethau Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976, fel yr oeddynt yn gymwys i Gymru ar 25 Mehefin 2019 ar ôl eu diwygio gan Fil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) o'i ddedfu fel y'i cyflwynwyd ar 8 Gorffennaf 2019. Mae'r testun isod yn adlewyrchu geiriad adran 5(2) Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 fel ag y mae ar 8 Gorffennaf 2019, nid y diwygiadau a gynigir i adran 5(2) Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau (rhif 2).

Mae llinell wedi'i dynnu trwy ddeunydd fydd yn cael ei ddileu gan Fil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) e.e. ~~mae deunydd wedi'i ddileu'n edrych fel hyn~~. Mae deunydd y mae Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) yn ei ychwanegu wedi'i danlinellu e.e. mae deunydd wedi'i ychwanegu yn edrych fel hyn. Cyfeirir at ddarpariaethau diwygio perthnasol y Bil yn y golofn dde ar bob tudalen.

Cynhwysir nifer o ddarpariaethau perthnasol o'r Ddeddf, er nad ydynt yn cael eu diwygio, i'ch helpu i ddeall y diwygiadau a gynigir.

[77] www.parialment.co.uk, Wild Animals in Circuses (No.2) Bill 2017-19 <https://services.parliament.uk/Bills/2017-19/wildanimalsincircusesno2.html>

**Rhybudd**

Mae'r testun hwn wedi'i baratoi gan swyddogion Adran yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru. Er bod ymdrechion wedi'u gwneud i sicrhau ei fod yn gywir, ni ddylid dibynnu arno fel testun diffiniadol o'r Ddeddf nac o'r Bil.

Mae wedi'i gyflwyno'n unswydd i helpu pobl i ddeall effaith Bil Anifeiliaid a Syrcasau (Cymru). Ni ddylid ei ddefnyddio mewn unrhyw gyd-destun arall.

| **Dangerous Wild Animals Act 1976** | *Adran ddiwygio Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)* |
|---|---|
| **5 Exemptions** | |
| The provisions of this Act shall not apply to any dangerous wild animal kept in:- | |
| (1) a zoo within the meaning of the Zoo Licensing Act 1981 for which a licence is in force (or is not for the time being required) under that Act; | |
| ~~(2) a circus;~~ | 8(1) |
| (2A) premises in England on which the activity described in paragraph 2 of Schedule 1 to the Animal Welfare (Licensing of Activities Involving Animals) (England) Regulations 2018 (read with paragraph 3 of that Schedule: selling animals as pets etc) is carried on under a licence under those Regulations; | |
| (3) premises in Wales licensed as a pet shop under the Pet Animals Act 1951; | |
| (4) a place which is the place specified in a section 2C licence within the meaning of the Animals (Scientific Procedures) Act 1986. | |

Deddf Trwyddedu Swau 1981

GWELLIANNAU I'W GWNEUD I
FIL ANIFEILIAID GWYLLT A SYRCASAU (CYMRU)

Bwriedir i'r ddogfen hon ddangos sut olwg y bydd ar ddarpariaethau Deddf Trwyddedu Swau 1981, fel yr oeddynt yn gymwys i Gymru ar 25 Mehefin 2019 ar ôl eu diwygio gan Fil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) o'i ddedfu fel y'i cyflwynwyd ar 8 Gorffennaf 2019.

Mae llinell wedi'i dynnu trwy ddeunydd fydd yn cael ei ddileu gan Fil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) e.e. ~~mae deunydd wedi'i ddileu'n edrych fel hyn~~. Mae deunydd y mae Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) yn ei ychwanegu wedi'i danlinellu e.e. <u>mae deunydd wedi'i ychwanegu yn edrych fel hyn</u>. Cyfeirir at ddarpariaethau diwygio perthnasol y Bil yn y golofn dde ar bob tudalen.

Cynhwysir nifer o ddarpariaethau perthnasol o'r Ddeddf, er nad ydynt yn cael eu diwygio, i'ch helpu i ddeall y diwygiadau a gynigir.

**Rhybudd**

Mae'r testun hwn wedi'i baratoi gan swyddogion Adran yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru. Er bod ymdrechion wedi'u gwneud i sicrhau ei fod yn gywir, ni ddylid dibynnu arno fel testun diffiniadol o'r Ddeddf nac o'r Bil.

Mae wedi'i gyflwyno'n unswydd i helpu pobl i ddeall effaith Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru). Ni ddylid ei ddefnyddio mewn unrhyw gyd-destun arall.